Uned **Pobl a Gwaith**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cloriannu'r Prosiectau Arbrofol ar Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflwynir yng Nghymru o 2003-2006

Adroddiad Terfynol
Tachwedd 2006

32 Heol Trefynwy
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5HL

Ffôn: 01873 850975
Facs: 01873 855190
E-bost:peoplework@btconnect.com

People and Work Unit

Cloriannu'r Prosiectau Arbrofol ar Ieithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 2

CYNNWYS

		Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Strwythur y prosiect arbrofol	7
3.	Crynodeb	9
4.	Yr Effaith ar y Cwricwlwm	12
	- A ddylid addysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2? 12	
	- Sut mae'r ddarpariaeth ITM yn cyfrannu at Gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2? 15	
5.	Yr Effaith ar Addysgu	18
	- Dulliau cyflwyno 19	
	- Tystiolaeth am addysgu llwyddiannus 22	
6.	Yr Effaith ar Ddisgyblion	24
	- yng Nghyfnod Allweddol 3 25	
	- yng Nghyfnod Allweddol 4 27	
	- wrth drosglwyddo 31	
	- dilyniant 32	
	- manteision addysgol ehangach 33	
	- effaith dwyieithrwydd 34	
	- llwyddiant wrth gael pob disgybl i gyfrannu 35	
7.	Yr Effaith ar Ysgolion	38
	- Ymuno â'r prosiect arbrofol 38	
	- effeithiau andwyol ymuno 40	
	- costau a manteision 42	
	- cynaliadwyedd 44	
	- cefnogaeth gan CILT Cymru 45	
	- cefnogaeth gan y clwstwr 47	
	- olrhain trosglwyddo 48	
8.	Asesu'r gwersi yn sgil datblygiadau yn yr Alban, Lloegr ac Iwerddon	50
9.	Casgliadau	57
	Llyfryddiaeth	59

1. Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd prosiect arbrofol Ieithoedd Tramor Modern (ITM) yn nhymor yr Hydref 2003. Bwriad y prosiect yw rhoi prawf ar amryw o fodelau ar gyfer cyflwyno addysgu ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r modelau i gyd yn cynnwys o leiaf un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd mewn partneriaeth.

1.2 Mae'r prosiect arbrofol yn rhan o Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ieithoedd Tramor Modern (ITM), sef 'Ieithoedd Sy'n Cyfrif'. Nod y strategaeth hon yw cynyddu cyfranogiad mewn dysgu ieithoedd ledled Cymru. Fel y trafodir yn adran 8 mae'r prosiect arbrofol yn dilyn arbrofion tebyg yn yr Alban a Lloegr.

1.3 Roedd y gwaith cloriannu hwn yn dilyn datblygiad y prosiect dros ail a thrydedd flwyddyn y cynllun arbrofol tair blynedd. Nod y gwaith cloriannu oedd ystyried effaith cyflwyno astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 2 ar y cwricwlwm, ar yr ysgolion ac ar ddysgu dilynol y disgyblion. Yn benodol roedd gofyn i'r gwaith cloriannu adrodd ar effaith y prosiectau arbrofol yn y meysydd a ganlyn:-

Cwricwlwm – a yw cyflwyno ITM yn ychwanegiad gwerth chweil at y cwricwlwm statudol ac yn ddatblygiad arno.

Addysgu – cymharu a gwrthgyferbynnu dulliau addysgu gwahanol a ddefnyddir yn ysgolion y prosiect arbrofol a'r rhyngweithio rhwng darpariaeth ITM a diwylliant ac ethos yr ysgolion.

- potensial y dulliau cyflwyno gwahanol i fod yn gynaliadwy a chael eu defnyddio'n ehangach

- tystiolaeth am addsygu a dysgu llwyddiannus a pham y bernir eu bod yn llwyddiant.

Disgyblion - a oes gan ymwneud â dysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 effaith ddilynol ar ddysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 3 ac ar sgiliau ysgrifennu/siarad/gwrando yn Gymraeg a Saesneg.

- a oes gan y sgiliau sydd gan y disgyblion mewn mwy nag un iaith effaith ar ddysgu trydedd neu bedwaredd iaith.

- a yw'r ddarpariaeth ITM wedi bod yn llwyddiant o ran cael gan bob disgybl gyfrannu at eithaf ei allu, gyda sylw neilltuol i gyfrannu gan fechgyn a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

Ysgolion - a oes gan gyflwyno ITM drwy'r prosiectau arbrofol unrhyw effeithiau andwyol neu a yw wedi creu pwysau ychwanegol ar ysgolion, staff a disgyblion.

- cost a manteision y ddarpariaeth yn yr ysgolion ac i ba raddau y telir y costau gan y cyllid ychwanegol sydd ar gael.

- y gefnogaeth a roddir i ysgolion, yn enwedig gan CILT a thrwy fodel y Clwstwr.

- prosesau a roddir yn eu lle i hwyluso ac olrhain trosglwyddo disgyblion mewn ITM i Gyfnod Allweddol 3 a thu hwnt a pha mor llwyddiannus y bernir y rhain.

Costau a manteision - asesiad o'r costau a'r manteision ar gyfer darparu'r prosiect arbrofol a'r gefnogaeth a roddir gan CILT Cymru.

1.4 Yn 2005, ail flwyddyn y prosiect, ymwelodd y clorianwyr â 123 o'r 126 o ysgolion sy'n rhan o'r prosiect. Yn ystod yr ymweliadau ysgol hyn cynhaliwyd cyfweliadau gyda phrifathrawon, athrawon dosbarth a chyda staff roedd a wnelont â chynllunio/cyflwyno'r ddarpariaeth ITM. Roeddynt hefyd yn arsylwi ar wersi ym mhob un o'r clystyrau gan ymgynghori â disgyblion ar eu hymateb i'r prosiect arbrofol. Ymgynghorwyd â'r rhan fwyaf o'r disgyblion trwy drafodaethau mewn grwpiau bychain ond ar ben hynny cwblhawyd holiadur ysgrifenedig gan 26 o ddisgyblion blwyddyn 7 wedi iddo gael ei roi iddynt yn y dosbarth.

1.5 Yn 2006, trydedd flwyddyn y prosiect, ailymwelodd y clorianwyr â 55 o ysgolion. Roedd yr ail gam hwn ar y gwaith cloriannu yn anelu'n benodol at ganolbwyntio ar drosglwyddo ac effeithiau cymryd rhan yn y prosiect yng Nghyfnod Allwedddol 3 ac roedd pwyslais neilltuol ar ymgynghori â'r ysgolion uwchradd. Roedd 19 o'r 21 o ysgolion uwchradd yn cymryd rhan yn yr ail gam ar y gwaith cloriannu ynghyd â 36 o ysgolion cynradd.

Tabl 1.1: Nifer y staff a holwyd

	Cynradd		**Uwchradd**		**Cyfan**	
	2005	2006	2005	2006	2005	2006
Ysgolion yr ymwelwyd â hwy	103	36	20	19	123	**55**
Penaethiaid	89	28	12	14	101	42
Dirprwy Benaethiaid	10	2	24	2	34	4
Athrawon y prosiect ITM	23	5	11	10	34	15
Athrawon Dosbarth	89	33	13	5	102	38
Penaethiaid Adrannau	1	0	15	9	16	9
Cyfanswm	**212**	**68**	**75**	**40**	**287**	**108**

Tabl 1.2: Y disgyblion a holwyd

Cynradd		**Uwchradd**		**Cyfan**	
2005	**2006**	**2005**	**2006**	**2005**	**2006**
291	223	75	90	366	313

1.6 Ar ben hynny, yn 2006 roedd y clorianwyr yn cyfweld penaethiaid 8 ysgol a oedd yn gymwys i ymuno â'r prosiect, gan eu bod yn ysgolion a gyflenwai ysgol uwchradd a oedd yn cymryd rhan, ond roeddynt wedi dewis peidio â gwneud hynny. Nod y cyfweliadau hyn oedd ymchwilio i'r rhesymau tros beidio ag ymuno.

1.7 Rhoddwyd 20 o holiaduron i rieni i bob ysgol yr ymwelwyd â hi gan y clorianwyr gyda chais am iddynt gael eu dosbarthu i ddisgyblion a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect i fynd â hwy adref. Roedd yr holiaduron dwyieithog mewn amlen dan sêl gydag amlen radbost i'w dychwelyd. Roedd y clorianwyr yn dibynnu ar yr ysgolion i ddosbarthu'r holiaduron ac ar y disgyblion fynd â hwy i'r rhieni. Os nad oedd ymateb gan ysgol roeddid yn tybio na ddosbarthwyd mo'r holiaduron. Ar gam cyntaf y gwaith cloriannu yn 2005 cafwyd ymatebion gan 90 o'r 123 o ysgolion yr ymgynghorwyd â hwy ac yn 2006 cafwyd ymatebion gan rieni o 38 o'r 55 o ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Mae Tabl 1.3 yn rhoi manylion:

- am y nifer o ysgolion yr ymwelwyd â hwy, a'r cytbwysedd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd (rhesi 3-5);
- cyfansymiau'r holiaduron a ddosbarthwyd i ysgolion (rhes 7), cyfanswm nifer yr ymatebion a chanran y rhieni a ymatebodd (rhes 8);
- cyfanswm yr ysgolion ble ymatebodd y rhieni (rhes 10), cyfanswm yr ysgolion cynradd ac uwchradd ble ymatebodd y rhieni a chanran yr ysgolion cynradd ac uwchradd y cawsom ymateb gan rieni ganddynt (rhesi 11a 12) ; a'r
- Gyfradd ymateb gan ysgolion ble ymatebodd rhieni (rhes 13).

Tabl 1.3: ymatebion arolwg rhieni – niferoedd a chanrannau

Cyfanswm yr ysgolion = 126	**2005**		**2006**	
	Nifer	**%**	**Nifer**	**%**
Sampl yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy	123	100%	55	100%
a oedd yn ysgolion uwchradd	20	16%	19	35%
ysgolion cynradd	103	84%	36	65%
Cyfanswm holiaduron a roed i'r ysgolion	2460	100%	1100	100%
Cyfanswm ymatebion gan rieni	930	38%	310	28%
Nifer ysgolion gydag ymateb gan rieni	90	73%	38	69%
a oedd yn ysgolion uwchradd	19	15%	9	14%
ysgolion cynradd	71	58%	29	53%
Ymateb gan ysgolion ble dosbarthwyd yr holiaduron	930	52%	310	41%

1.8 Yn ystod ymweliadau ysgolion defnyddiwyd rhaglenni pwnc i gasglu data ansoddol a meintiol. Cafodd ymatebion cyfweliadau ansoddol eu codio i gynhyrchu categorïau a chanrannau ymatebion yn erbyn y meysydd categori. Roedd hyn yn galluogi i staff ysgolion a disgyblion gynnig ymatebion ar sail eu barn a'u profiad o'r prosiect arbrofol, yn hytrach na dim ond ymateb i dybiaethau'r clorianwyr drwy gwestiynau wedi eu gosod o flaen llaw. Gall hyn olygu, fodd bynnag, nad yw ymateb cyfrannol isel i bwnc ddim ond yn dangos pwysigrwydd cymharol y pwnc hwnnw, gan mai cofnod ydyw o ba mor aml y cafodd ei godi.

1.9 Roedd hefyd amrywiadau yn y nifer o gyfweliadau a gynhelid mewn ysgolion. Mewn un ysgol, er enghraifft, cyfrannodd chwech athro dosbarth eu safbwyntiau, ond mewn eraill efallai nad oedd ond un. Roedd ambell ysgol yn fychan dros ben gyda'r penaethiaid yn athrawon dosbarth ynddynt hefyd ac felly dim ond un cyfweliad a wnaed yn yr ysgol. Roedd yna hefyd wahanol hydoedd o amser ar gael i gwblhau'r cyfweliadau fel nad oedd cyfle ym mhob achos i holi'r holl gwestiynau. Byddai'n gamarweiniol, felly, i gyflwyno data fesul ysgol, ac felly, pan ddefnyddir canrannau, maent yn cynrychioli'r gyfran gyfan o staff ysgolion a wnaeth sylw ar bwnc neilltuol.

1.10 Roedd yr holl ffigyrau a ddefnyddir yn y tablau yn gwestiynau ansoddol, caeedig, megis "Ydych chi'n credu bod y dull a ddefnyddir i addysgu ITM yn y clwstwr hwn yn effeithiol?"). Mae a wnelo'r ymatebion canrannol a ddyfynnir yn y traethiad eglurhaol â'r nifer o bobl a gododd bwnc neilltuol wrth ymateb i gwestiwn agored megis "Allwch chi ddweud wrthyf beth yn eich barn chi fydd effaith y prosiect hwn ar ddisgyblion…" fel canran o'r sampl cyfan.

1.11 Yn y tablau nid yw'r canrannau yn adio yn 100 bob amser gan fod ymatebion 'ddim yn gwybod' a 'dim ateb' yn cael eu gadael allan pan fyddant yn ffurfio cyfran fechan o'r ymatebion cyfan.

1.12 Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i grŵp llywio'r prosiect yn Rhagfyr 2004, Mai 2005, Medi 2005 a Ionawr 2006 a chyflwynwyd adroddiad cloriannu dros dro yn Ebrill 2005. Paratowyd adroddiad cryno ym Mai 2005 a'i anfon at bob ysgol a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect arbrofol. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn tynnu ar ddadansoddiad o'r holl ddata a gasglwyd yn nau cam y cloriannu, sef ymweliadau ysgolion a gynhaliwyd yn 2005 a 2006 ac mae'n gyfuniad o'r adroddiadau blaenorol.

1.13 Pan fo'n berthnasol dyddir tablau a chanfyddiadau naill ai'n 2005 neu'n 2006. Ceir hyn pan fydd yr un pwnc wedi cael ei archwilio y ddwy flwyddyn ar ôl ei gilydd er mwyn gweld a oes newid wedi bod wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

2. Strwythur y prosiect arbrofol

Roedd 126 o ysgolion ledled Cymru yn rhan o'r prosiect arbrofol. I fod yn rhan o'r prosiect arbrofol roedd rhaid iddynt gyflwyno ITM am o leiaf 19 awr yn ystod y flwyddyn. Roedd prosiect arbrofol ITM wedi ei strwythuro i roi prawf ar ystod o ymagweddau at addysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2. Roedd y prosiect wedi ei strwythuro hefyd i brofi model y clwstwr ble mae ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei chyflenwi yn gweithio gyda'i gilydd ar y cwricwlwm ac ar gyflwyno'r addysgu. Roedd y prosiect yn cael ei reoli trwy CILT Cymru. Darparai CILT Cymru yr hyfforddiant a chefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd i staff, mynediad at adnoddau a rheolaeth ar y cyllido. Gallai ysgolion y prosiect ddewis yr iaith roeddynt am ei dysgu. Roedd y rhan fwyaf o'r clystyrau (19 o'r 21) yn dysgu Ffrangeg, er bod 4 o'r rhain hefyd yn dysgu naill ai Almaeneg neu Sbaeneg. Roedd un clwstwr, er enghraifft, yn cyflwyno Almaeneg a Ffrangeg bob yn ail flwyddyn. Roedd un clwstwr yn dysgu Sbaeneg yn unig ac un arall Almaeneg yn unig. Roedd un ysgol hefyd yn dysgu ychydig o Eidaleg.

2.1 Amserlen

2.1.1 Cafodd y prosiect arbrofol ei drefnu ar gyfer tair blynedd o waith. Fodd bynnag, ni ddechreuodd pob ysgol ar y gwaith ym mis Medi 2003. Yn ôl y gwaith cloriannu, ni wnaeth tua 10% o'r ysgolion ddechrau dysgu ITM mewn gwirionedd tan fis Medi 2004.

2.2 Clystyrau

2.2.1 Roedd y prosiect yn cynnwys 21 o glystyrau. Ar adeg y set gyntaf o gyfweliadau yn yr ysgolion, roedd wyth yn glystyrau llawn sy'n cynnwys yr holl ysgolion cynradd dynodedig sy'n cyflenwi disgyblion i ysgol uwchradd benodol. Yn ystod y gwaith cloriannu ymunodd mwy o ysgolion â'r clystyrau ond roedd yna hefyd nifer o ran-glystyrau, a amrywiai o rai a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ysgolion cyflenwi i dri chlwstwr gyda dim ond un ysgol gynradd yn unig yn cyflenwi ynddynt.

2.2.2 Roedd nifer fechan o ddisgyblion a oedd yn dechrau ar CA3 ym mis Medi 2004 ac a oedd ym mlwyddyn 9 erbyn diwedd y prosiect. Fodd bynnag, roedd y gwaith cloriannu yn canolbwyntio ar garfan blwyddyn 8 yn 2006 gan mai dyma'r grwp cyntaf yr ystyrir iddo fod ar ei ennill yn llawn drwy strwythur y clystyrau.

2.2.3 Ysgolion cynradd oedd yn arwain pedwar o'r clystyrau. Byddai'n gywirach disgrifio dau o'r rhain yn bartneriaethau gan mai un ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn unig oedd ynddynt.

2.3 Yr iaith Gymraeg

2.3.1 Mae 66 o'r ysgolion (9 o'r 21 clwstwr) yn cyflwyno'r addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dysgir Cymraeg ym mhob ysgol arall.

2.4 Lleoliad daearyddol

2.4.1 Roedd 93 ysgol yn y prosiect arbrofol yn Ne Cymru, deg yng Nghorllewin Cymru a 23 yng Ngogledd Cymru.

2.5 Cyflwyno'r gwersi

2.5.1 Roedd yr holl glystyrau yn cynnwys rhyw ffurf ar ddysgu iaith arbenigol. Roedd wyth clwstwr yn cyflwyno'r ddarpariaeth yn llwyr trwy athro iaith arbenigol o'r ysgol uwchradd yn dysgu disgyblion yr ysgolion cynradd. Roedd tri yn cynnwys athrawon peripatedig annibynnol a gyflogir yn benodol trwy'r prosiect a dau yn prynu gwasanaeth pobl leol sy'n arbenigwyr ar iaith. Roedd y lleill i gyd yn cynnwys darpariaeth gymysg o fewn y clwstwr ac weithiau o fewn yr ysgol.

2.5.2 Roedd mwyafrif y gwersi yn cael eu cyflwyno bob wythnos am rhwng 30-45 munud, gyda lleiafrif yn cael gwersi bob pythefnos am 1 awr. Erbyn ail flwyddyn y prosiect roedd yr holl ysgolion yn cael eu gwersi bob tymor gydol y flwyddyn. Roedd dau glwstwr a ddechreuodd gynnal y gwersi mewn cyfnod cryno yn ystod Tymor yr Haf, ar ôl cwblhau'r TASau, wedi newid i rannu'r gwaith yn fwy cyson gydol y flwyddyn. Roeddynt yn gweld bod crynhoi'r gwersi yn creu pwysau gwirioneddol ar staff, yn enwedig os oedd aelodau allweddol o'r staff yn absennol oherwydd salwch yn ystod cyfnod y gwersi, fel a ddigwyddodd mewn un ardal.

3. Crynodeb

3.1 Y Cwricwlwm:

3.1.1 Mae staff yr ysgolion, rhieni a disgyblion i gyd yn cytuno bod cyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ychwanegiad gwerth chweil at y cwricwlwm statudol. Ystyrir ef yn beth da oherwydd:

- Bod canfyddiad po ieuengaf yw plentyn po rwyddaf yw hi iddo ddysgu iaith. Sylwodd staff yr ysgolion fod disgyblion CA2 yn llai swil wrth lefaru geiriau newydd.

- Mae'r canolbwyntio ar siarad a gwrando ar CA2 yn golygu bod modd cyflwyno dysgu iaith mewn ffordd 'hwyliog', gan annog ymagwedd gadarnhaol ar CA3.

- Mae plant yn dod yn fwy ymwybodol o ddiwylliannau a phobloedd eraill.

- Mae effaith gadarnhaol ar sgiliau iaith mewn Cymraeg a Saesneg.

3.1.2 Roedd dros hanner staff yr ysgolion yn nodi effaith gadarnhaol trwy gyflwyno addysgu ITM ar gwricwlwm CA2 yn gyffredinol ac roedd dros draean wedi datblygu cysylltiadau cwricwlwm penodol.

3.1.3 Roedd prosiect arbrofol ITM wedi cynorthwyo i ddatblygu neu gryfhau cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a oedd wedi arwain at rannu dulliau addysgu a chodi ymwybyddiaeth o ffyrdd i gysylltu cwricwla CA2 a CA3.

3.2 Addysgu:

3.2.1 Roedd pob dull addysgu a ddefnyddid yn y prosiect yn cael eu gweld yn llwyddiant gan rieni, disgyblion ac ysgolion wrth gael gan ddisgyblion gymryd rhan a datblygu cael blas ar ddysgu iaith.

3.2.2 Roedd cynnwys athrawon arbenigol, fodd bynnag, yn cael ei weld gan fwyafrif mawr staff yr ysgolion yn bwysig. Gall yr arbenigwyr fod yn athrawon ar ymweliad o'r ysgol uwchradd, yn athrawon peripatetig neu'n athrawon ysgol gynradd sy'n gwybod yr iaith a ddysgir yn dda.

3.2.3 Roedd addysgu arbenigol dan arweiniad yr ysgol uwchradd yn cael ei weld yn neilltuol o werthfawr ar gyfer dilyniant, gan ei fod yn creu cyfleoedd i ddatblygu cwricwlwm integreiddiedig, fesul cam. Ble roedd gwersi yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan athrawon ysgolion uwchradd roedd manteision ychwanegol mewn trosglwyddo, yn enwedig ble addysgid disgyblion ym mlwyddyn 7 gan athrawon roeddynt wedi gweithio â hwy ym mlwyddyn 6.

3.2.4 Cyflawnodd rhai ysgolion cynradd addysgu ITM o safon uchel yn fewnol trwy frwdfrydedd a gwaith caled yr athrawon perthnasol.

3.2.5 Roedd llwyddiant wrth gyflwyno ITM yn cael ei fesur yn bennaf trwy fwyniant y plant a'u brwdfrydedd tros y gwersi. Roedd tystiolaeth fod disgyblion yn dysgu am wledydd a phobloedd eraill yn ogystal ag am ieithoedd.

3.3 Effaith ar ddisgyblion:

3.3.1 Barn staff yr ysgolion, disgyblion a rhieni oedd fod prosiect arbrofol ITM wedi cael effaith fuddiol ar y disgyblion. Roedd sôn iddo gael effaith lesol ar drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac ar ddysgu ITM ar CA3. Roedd cryfder y clwstwr ysgolion yn allweddol i'r effaith ar drosglwyddo a dilyniant. Heb glwstwr llawn ni all yr ysgolion gynllunio ar gyfer dilyniant.

3.3.2 Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, roedd staff yr ysgolion yn gweld mwy o dystiolaeth o effaith gadarnhaol ar drosglwyddo, gyda 56% yn 2005 yn dweud bod effaith o'i gymharu ag 89% yn 2006.

3.3.3 Roedd y rhan fwyaf o'r asesu ar effaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn ansoddol. Roedd llai na chwarter yr ysgolion a gafodd eu harolygu yn casglu data meintiol. Fodd bynnag, ble roedd data o'r fath yn cael eu casglu roeddent yn dangos yn gyson fod effaith y prosiect arbrofol yn gadarnhaol.

3.3.4 Dywedodd yr holl ddisgyblion fod dysgu ITM ar CA2 wedi eu cynorthwo ar CA3 a dywedodd 81% o rieni disgyblion CA3 fod astudio ITM eu plant yn yr ysgol uwchradd wedi cael ei gynorthwyo trwy eu hymwneud â'r prosiect.

3.3.5 Roedd tystiolaeth am y diddordeb a'r blas wrth astudio ITM yn cael eu cynnal, gyda disgyblion a rhieni blwyddyn 8 yn dal yn frwd dros ben. Roedd 88% o rieni am i'w plentyn astudio un o'r ITM at lefel TGAU.

3.3.6 Fodd bynnag, ar waethaf cael blas ar ddysgu ieithoedd dim ond 64% o ddisgyblion ysgolion cynradd a 46% o ddisgyblion ysgolion uwchradd a oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect a fwriadai astudio ITM at lefel TGAU. Mae astudiaethau Estyn yn awgrymu bod dewis pynciau ar CA4 yn cael ei ddylanwadu gan ystod o ffactorau gwahanol nad oes a wnelont â chael blas ar ddysgu iaith.

3.3.7 Ystyrir bod gradd o ruglder mewn dwy iaith (Cymraeg a Saesneg) yn cynnig mantais wrth ddysgu trydedd neu bedwaredd iaith. Fodd bynnag, nododd y gwaith cloriannu wahaniaethau yn y modd y canfyddir y fantais hon yn ôl cefndir ieithyddol y disgyblion a'r math o ysgol. Mae'r rhain yn ymrannu'n dri chategori bras:

a. disgyblion y mae'r Gymraeg yn iaith y cartref iddynt ac y gellir dweud eu bod yn 'naturiol ddwyieithog'
b. disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith y cartref ond sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn aml o bedair oed neu'n iau, ac sydd wedi ennill gradd uchel o ruglder yn y ddwy iaith trwy gefndir yr ysgol
c. disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith y cartref ac sydd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol yn unig ac y gellir eu disgrifio fel dysgwyr Cymraeg.

Y canfyddiad oedd fod y brif fantais wrth ddysgu ITM gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda gradd uchel o ruglder yn y ddwy iaith.

3.3.8 Roedd y prosiect ITM yn llwyddiant o ran cael cyfrannu gan fechgyn a merched. Yn aml hefyd gallai gael gan ddisgyblion ag anghenion arbennig gymryd rhan oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar wrando a siarad.

3.4 Effaith ar ysgolion:

3.4.1 Roedd ysgolion wedi gwneud cais am ymuno â'r prosiect naill ai am fod ganddynt ddiddordeb yn barod mewn ITM neu waith Ewropeaidd neu am eu bod yn rhan o glwstwr ble roedd hynny'n wir am yr ysgol a oedd yn arwain.

3.4.2 Roedd tystiolaeth fod gan lawer o athrawon ymrwymiad uchel at y priosect a'i lwyddiant. Roedd hyn yn gryfder allweddol yn y prosiect ond gallai fod yn wendid hefyd os oedd y gwaith yn dechrau dibynnu ar eu brwdfrydedd a'u harweiniad a'u bod wedyn, am ba reswm bynnag, yn gadael.

3.4.3 Roedd rhieni a llywodraethwyr ysgol yn frwdfrydig ynghylch y prosiect ac roedd hyn yn gymhelliad i'r ysgol gymryd rhan. Dywedodd 80% o staff yr ysgolion fod gan y prosiect effaith gadarnhaol ar yr ysgol gan gynnwys hyrwyddo datblygu staff a chlystyrau cryfach.

3.4.4 Roedd bron hanner yr ysgolion yn y prosiect wedi nodi na chawsant unrhyw anawsterau wrth gyflwyno'r prosiect. Ble cafwyd problemau roeddynt yn bennaf oherwydd pwysau ar gwricwlwm yr ysgol gynradd, diffyg staff a chlystyrau anghyflawn.

3.4.5 Dywedodd 89% o'r ysgolion fod y cyllid a oedd ar gael ar gyfer y prosiect wedi talu eu costau. Y brif gost oedd talu am addysgu arbenigol. Roedd costau hefyd gyda chyfarfodydd clwstwr a sesiynau datblygu staff a chyda phrynu adnoddau.

3.4.6 Er mwyn gwneud y ddarpariaeth ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gynaliadwy dywedodd staff yn yr ysgolion fod angen brwdfrydedd gan athrawon, cysondeb a chynllunio wrth gyflwyno a bod athrawon arbenigol ar gael. Nododd rhieni hefyd yr angen am gynllunio dilyniant a dywedodd tros 80% o staff yr ysgolion ei bod hi'n bwysig cael clwstwr llawn er mwyn cynnal y fantais ddysgu hon.

3.4.7 Roedd cefnogaeth CILT Cymru a'i ran wrth ddatblygu yn cael ei werthfawrogi. Roedd y rhan a chwaraeai'r corff hwn wrth gynnig hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd yn cael ei werthfawrogi ynghyd â'u cymorth wrth ddatrys problemau ac anawsterau. Ystyrid bod CILT Cymru yn cynorthwyo gyda phroblemau yn y clwstwr a chyda rheoli'r cyllido.

4 Effaith ar y cwricwlwm

Canfyddiadau allweddol:
Roedd staff yr ysgolion, rhieni a disgyblion i gyd yn cytuno bod cyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ychwanegiad gwerth chweil at y cwricwlwm statudol.

Roedd yn cael ei weld yn beth da oherwydd:

* Bod canfyddiad po ieuengaf yw plentyn, po rwyddaf yw hi iddo ddysgu iaith. Sylwodd staff yr ysgolion fod disgyblion CA2 yn llai swil wrth lefaru geiriau newydd.

* Mae'r canolbwyntio ar siarad a gwrando ar CA2 yn golygu bod modd cyflwyno dysgu iaith mewn ffordd 'hwyliog', gan annog ymagwedd gadarnhaol ar CA3.

* Mae plant yn dod yn fwy ymwybodol o ddiwylliannau a phobloedd eraill.

* Mae effaith gadarnhaol ar sgiliau iaith mewn Cymraeg a Saesneg.

Nododd tros hanner staff yr ysgolion effaith gadarnhaol oherwydd cyflwyno dysgu ITM ar y cwricwlwm CA2 yn gyffredinol ac roedd tros draean wedi datblygu cysylltiadau cwricwlwm penodol.

Roedd prosiect arbrofol ITM wedi cynorthwyo i gryfhau a datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a oedd wedi arwain at rannu dulliau addysgu a chodi ymwybyddiaeth o ffyrdd i gysylltu cwricwla CA2 a CA3.

4.1 Holwyd staff yr ysgolion, y rhieni a'r disgyblion i gyd a ddylai ITM gael eu dysgu ar CA2. Roedd yr ymateb cadarnhaol i hyn yn llethol, gyda 90% neu fwy o bob grwp yr ymgynghorwyd ag ef yn cefnogi cyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd. Ar y cychwyn roedd disgyblion a rhieni yn fwy brwd na staff yr ysgolion ond canfu'r gwaithy cloriannu fod athrawon dosbarth cynradd, yn enwedig, yn mynd yn gynyddol fwy cadarnhaol am werth dysgu ITM ar CA2 wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Tabl 4.1: A ddylid dysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2?

Ymatebydd	Dylid - %		Na ddylid - %		Ddim yn gwybo - %	
	2005	2006	2005	2006	2005	2006
Staff ysgolion	77	90	7	3	16	7
Rhieni	99	93	1	7	0	0
Disgyblion	100	100	0	0	0	0

4.2 Disgrifir manteision addysgu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2 fel a ganlyn:-

- brwdfrydedd a chyffro'r disgyblion wrth ddysgu pwnc newydd
- disgyblion cynradd heb fod yn hunanymwybodol wrth gymryd rhan yn y dosbarth
- canfyddiad mai po ieuengaf yw'r plentyn po rwyddaf yw hi iddo ddysgu iaith newydd

Sylwadau rhieni:

Mae plant yn fwy parod i ddefnyddio iaith newydd a'i hymarfer hi na phan fyddant yn hŷn. Os bydd plant yn dechrau dysgu iaith arall yn ifanc, ni fydd arnynt ofn y syniad fod dysgu yn her.

Mae fy mab yn edrych yn ei flaen at gael mynd i'r ysgol uwchradd i ddal ati gyda Ffrangeg. Mae wedi cael ei ysbrydoli!

Pan fyddwn ar wyliau, byddaf yn teimlo mor falch o fy mab gan y bydd yn rhoi eithaf cynnig ar Sbaeneg, er nad oes ganddo ond ychydig, ond bydd pobl y siopau wrth eu boddau pan fydd yn ceisio sgwrsio yn Sbaeneg.

Roedd fy merch hynaf yn cymryd rhan ym mlwyddyn gynta'r prosiect, a chan ei bod hi yn yr ysgol uwchradd bellach, mae'n amlwg yn barod ei bod hi ar ei hennill. Mae hi hefyd yn ymwybodol y bydd hi'n gallu sgwrsio ag eraill pan awn i Ffrainc yn yr haf – tystiolaeth fod ganddi hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Rwyf wrth fy modd fod fy ail ferch hithau yn cael yr un cyfle i gymryd rhan yn y cynllun.

Mae modd defnyddio dulliau addysgu mwy hamddenol ac ifanc h.y. lliwio trwy rifau, jig-sô etc. sydd o gymorth i'r plentyn ddysgu ITM trwy weithgareddau chwarae yn hytrach nag adrodd rhediadau berfau diflas etc. Mase fy mhlentyn yn dysgu Ffrangeg yn gyflym iawn trwy weithgareddau chwarae gwych. Mae hi'n meddwl ei fod yn hwyl ac yn cael blas ar y wers bob wythnos. CYNLLUN ARDDERCHOG!!

Yn ogystal â bod o bwysigrwydd academaidd, credaf fod dysgu iaith newydd o gymorth hefyd gyda sgiliau cymdeithasol. Credaf yn gryf fod dysgu iaith newydd o les mawr ac rwy'n falch dros ben fod fy merch wedi cael y cyfle i gymryd rhan – hir oes i'r cynllun!

Rhaid inni fod o ddifrif calon ynghylch dysgu ITM ac mae angen eu dysgu mewn amgylchedd di-ffrwyn ble mae ganddynt ddigon i'w ddweud – yn yr ysgol gynradd. Erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd bydd plant wedi cael eu ffrwyno a bydd hi'n rhy hwyr.

4.3 Roedd sylwadau'r rhieni yn pwysleisio'r canfyddiad ei bod hi'n haws dysgu iaith newydd yn ifanc. Ychwanegodd traean y rhieni sylwadau ar yr holiaduron yn rhoi hyn fel eu prif reswm dros gefnogi astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 2. Nodai rhieni eu bod yn gweld dysgu iaith yn rhywbeth pwysig, gyda'r rhan fwyaf (dros 70%) yn cytuno y bydd angen mae'n debyg ar eu plentyn allu siarad iaith arall fel oedolyn. Roedd sylwadau eraill gan rieni yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu ITM wrth ehangu dealltwriaeth o ddiwylliannau a gwledydd eraill (11% o rieni ysgolion uwchradd a 14% o rieni ysgolion cynradd). Roedd sylwadau gan rieni ysgolion cynradd hefyd ar ddysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 fel paratoad ar gyfer yr ysgol uwchradd.

4.4 Roedd rhieni yn gadarn fod dysgu iaith arall yn bwysig yn addysgiadol ac wrth baratoi eu plant ar gyfer bywyd oedolion. Ar waethaf y defnydd cyffredin cynyddol ar Saesneg ar draws y byd, roedd tri chwarter y rhieni a ymatebodd yn anghytuno â'r farn fod eu plentyn yn annhebygol o fod angen siarad iaith arall fel oedolyn (tablau 4.2 a 4.3). Roedd hi'n eglur o siarad â disgyblion fod gan lawer ohonynt beth profiad o ymweld â gwlad yn Ewrop yn barod (Sbaen fynychaf) a disgwyliai'r rhan fwyaf wneud hynny yn y dyfodol.

Tabl 4.2 Mae'n annhebygol y bydd ar fy mhlentyn angen siarad iaith arall fel oedolyn

	Cytuno'n gryf -%	Cytuno -%	Ddim yn gwybod -%	Anghytuno -%	Anghytuno'n gryf -%
Rhieni ysgolion cynradd	1	4	18	43	34
Rhieni ysgolion uwchradd	3	3	17	43	33

Tabl 4.3 Does dim angen dysgu iaith arall am fod Saesneg yn cael ei siarad ym mhob man

	Cytuno'n gryf -%	Cytuno-%	Ddim yn gwybod -%	Anghytuno -%	Anghytuno'n gryf -%
Rhieni ysgolion cynradd	1	1	2	40	57
Rhieni ysgolion uwchradd	2	4	2	42	51

4.5 Gwelai rhieni fantais gyffredinol mewn gallu siarad nifer o ieithoedd (tabl 4.4) gan gytuno hefyd fod dysgu iaith yn cynnig sgil gwerthfawr ynddo'i hun (tabl 4.5).

Tabl 4.4: Gorau po fwyaf o ieithoedd y gallwch eu siarad

	Cytuno'n gryf -%	Cytuno %	Ddim yn gwybod -%	Anghytuno -%	Anghytuno'n gryf -%
Rhieni ysgolion cynradd	52	42	3	2	1
Rhieni ysgolion uwchradd	54	39	2	5	0

Tabl 4.5: Mae gallu dysgu iaith yn sgil gwerthfawr

	Cytuno'n gryf -%	Cytuno %	Ddim yn gwybod - %	Anghytuno- %	Angytuno'n gryf - %
Rhieni ysgolion cynradd	69	28	1	1	1
Rhieni ysgolion uwchradd	54	43	1	1	2

4.6 Roedd disgyblion ysgol yn cytuno â'r oedolion wrth ystyried bod dysgu iaith yn haws pan ydych yn yr ysgol gynradd. Dywedodd 40% ei bod hi'n haws dysgu iaith pan ydych yn ifanc a chymerodd nifer ohonynt Gymraeg yn enghraifft, gan nodi bod dechrau arni yn yr ysgol fabanod wedi bod yn beth da. Credai 97% o ddisgyblion ysgolion cynradd a 93% o ddisgyblion ysgolion uwchradd a gymerai ran yn y prosiect ei bod yn bwysig gallu siarad ieithoedd tramor. Dywedodd rhai disgyblion cynradd (28%) hefyd y byddai astudio ITM o gymorth gyda throsglwyddo, oherwydd adnabod yr athro (ble roedd hynny'n wir) a thrwy gynnig 'rhoi blaen' wrth astudio.

4.7 Roedd sylwadau gan staff ysgolion yn adlewyrchu barn y rhieni y gallai plant fod ar eu hennill o ddysgu ieithoedd yn yr ysgol gynradd ac roedd peth cefnogaeth i gychwyn arni ym mlwyddyn 1. Y prif fanteision a nodwyd oedd yr hyrwyddo cyffredinol ar sgiliau iaith a'r defnydd ar iaith a chael mwy o hyder wrth ddysgu iaith (28% o ymatebion cadarnhaol). I rai roedd effaith gynyddol wrth iddynt nodi sgiliau a ddysgir yn cael eu trosglwyddo i feysydd eraill yn y cwricwlwm (18% o ymatebion cadarnhaol).

Ardderchog mewn Ffrangeg ac mae unrhyw beth maen nhw'n frwd drosto yn berwi drosodd i feysydd eraill yn y cwricwlwm (sylw athro dosbarth)

4.8 Mewn ambell achos roedd tystiolaeth hefyd am gyfoethogi dulliau addysgu o ganlyniad i fod yn rhan o'r prosiect.

Wrth ddysgu Cymraeg rydym yn defnyddio'r gemau a'r strategaethau llwyddiannus a welsom gyda Ffrangeg (sylw athro dosbarth)

Sut mae'r ddarpariaeth ITM yn cyfrannu at gwricwlwm CA2?

4.9 Gofynnwyd i'r ysgolion pa effaith roedd y prosiect wedi cael ar gwricwlwm CA2. Dywedodd mwyafrif yr athrawon a'r rheolwyr uwch fod effaith gadarnhaol wedi bod (tabl 4.6).

Tabl 4.6: effaith y prosiect ar y cwricwlwm - % ymatebion

Ymatebydd	Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol	Ddim y gwybod
Penaethiaid	55	20	5	20
Athrawon (eraill)	57	25	6	12

4.10 Yn ystod cam cyntaf y cloriannu roedd 41% o staff ysgolion yn trafod datblygu'r cwricwlwm ac o blith y rhain dywedodd 75% fod cymryd rhan yn y

prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y cwricwlwm. Amrywiai'r effaith o ddatblygu rhaglenni gwaith newydd at 'Ewropeiddio' y cwricwlwm safonol gyda chyfeiriadau at 'ehangu' rhagolygon y disgyblion a syniadau ar sut mae cynnwys perspectifau rhyngwladol. Mae Tabl 4.7 yn dangos sut mae pobl yn disgrifio'r cryfhau hwn ar y cwricwlwm.

Tabl 4.7: Tystiolaeth o effaith ar y Cwricwlwm Cynradd

Effaith draws-Gwricwlaidd %	Ehangu Gorwelion %	Eraill %
63	20	17

4.11 Edrychwyd ar hyn ymhellach yn yr ail gam a gofynnwyd i bob ysgol a oedd cysylltiadau cwricwlwm wedi eu datblygu gyda phynciau eraill trwy'r prosiect arbrofol. Roedd un o bob tri yn nodi cysylltiadau (tabl 4.8).

Tabl 4.8: cysylltiadau cwricwlwm a ddatblygwyd trwy'r prosiect ITM yn y clwstwr - % ymatebion

Ymatebydd	Oedd	Nac oedd	Ddim y gwybod
Penaethiaid	31	44	26
Athrawon (eraill)	33	58	8

4.12 Yn yr ysgolion cynradd, nodwyd effeithiau trawsgwricwlaidd wrth addysgu Cymraeg a Saesneg (27% o ymatebion cadarnhaol) a hefyd mewn hanes, daearyddiaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol gyffredinol (27% o ymatebion cadarnhaol). Meysydd eraill y nodwyd effaith arnynt oedd T.G. (gweler 5.2) a cherddoriaeth.

4.13 Roedd tystiolaeth hefyd am effaith ar gwricwlwm CA3 gyda 80% o'r staff a ymatebodd yn dweud bod cymryd rhan yn y prosiect arbrofol wedi cael effaith gadarnhaol ar gwricwlwm yr ysgol uwchradd (tabl 4.9).

Tabl 4.9: Tystiolaeth am effaith ar y Cwricwlwm Uwchradd

Gwella'r Cwricwlwm %	Effaith Draws-Gwricwlaidd %	Eraill %
57	14	29

4.14 Y rhwystr mwyaf a nodwyd i gael effaith ar y cwricwlwm oedd amser. Dywedodd 67% fod diffyg amser yn rhwystro gwaith y prosiect rhag cael effaith ehangach. Ail rwystr, a nodwyd gan 13% o'r staff a wnaeth sylw, oedd diffyg arbenigedd. Adlewyrchai hyn rwystredigaeth rhai athrawon am na allent wneud gwaith atgyfnerthu am nad oedd ganddynt hyder yn yr iaith dramor.

4.15 Roedd a wnelo traean o'r sylwadau niwtral (tabl 4.6) â gweld ITM fel *'pwnc ar ei ben ei hun'* oddi allan i gwricwlwm craidd CA2. I rai (17% o'r

ymatebion effaith niwtral) disgrifid yr ymateb fel amddiffyn y ddarpariaeth, cyn belled â bod ITM yn cael ei weld ar hyn o bryd fel pwnc 'hwyliog' ar CA2 a bod teimlad y byddai ei gysylltu â'r cwricwlwm craidd yn gallu peryglu hynny.

4.16 Roedd y nifer fechan o staff ysgolion a welai'r ddarpariaeth ITM yn cael effaith negyddol ar y cwricwlwm yn fwyaf tebygol o gyfeirio at frwdfrydedd y disgyblion dros waith ITM yn arwain at ddiffyg amynedd gyda gwaith arall (60% o'r ymatebion negyddol).

5. Effaith ar addysgu

Canfyddiadau allweddol: Roedd yr holl ddulliau addysgu a ddefnyddiwyd yn y prosiect arbrofol yn cael eu hystyried yn llwyddiannus gan rieni, disgyblion ac ysgolion wrth gael gan y disgyblion gyfrannu ac wrth feithrin cael blas ar ddysgu ieithoedd.

Roedd yr ymwneud gan athrawon arbenigol, fodd bynnag, yn cael ei weld gan fwyafrif mawr staff yr ysgolion yn rhywbeth pwysig. Gallai'r arbenigwyr fod yn athrawon ar ymweliad o'r ysgol uwchradd, yn athrawon peripatetig neu'n athrawon ysgol gynradd sy'n gwybod yr iaith a ddysgir yn dda.

Ystyrid addysgu arbenigol dan arweiniad yr ysgol uwchradd yn werthfawr dros ben ar gyfer dilyniant, gan ei fod yn creu mwy o gyfleoedd i ddatblygu cwricwlwm integreiddedig, fesul cam. Ble roedd gwersi yn cael eu cyflwyno yn yr ysgol gynradd gan athrawon ysgol uwchradd roedd mantais o ran trosglwyddo, yn enwedig os oedd disgyblion ym mlwyddyn 7 yn cael eu dysgu gan athrawon roeddynt wedi gweithio gyda hwy ym mlwyddyn 6.

Sicrhawyd addysgu ITM o safon uchel yn fewnol gan ambell ysgol gynradd trwy frwdfrydedd a gwaith caled yr athrawon perthnasol.

Roedd llwyddiant wrth gyflwyno ITM yn cael ei fesur trwy frwdfrydedd y disgyblion a'r blas a gaent ar y gwersi. Roedd tystiolaeth fod disgyblion yn dysgu am wledydd a phobloedd eraill yn ogystal â'r ieithoedd.

5.1 Ychydig iawn o feirniadu o unrhyw fath a fu ar y ddarpariaeth addysgu (cafwyd beirniadaeth gan 3% o benaethiaid a chan 2% o athrawon). Yn y rhan fwyaf o achosion y feirniadaeth oedd nad oedd digon o ddarpariaeth, neu ddigon o ddyfnder iddi. Roedd gan staff ysgolion ddiddordeb yn y dulliau addysgu a ddefnyddid gan gydweithwyr yn y prosiect arbrofol ac roeddynt yn werthfawrogol ohonynt. Roedd 92% o staff ysgolion yn disgrifio ansawdd yr addysgu yn y prosiect fel da iawn (tabl 5.1) a nododd 22% fod dulliau addysgu effeithiol yn gryfder allweddol yn y ddarpariaeth.

Tabl 5.1: bodlonrwydd staff ysgolion ar yr ansawdd addysgu presennol

	Da iawn %	Da %	Cymhedrol %	Gwan %
Staff ysgolion	92	6	2	0

5.2 Canfu'r gwaith cloriannu nad oedd fawr o wahaniaeth yn ymatebion disgyblion na rhieni beth bynnag oedd y dull addysgu. Roedd bron y cyfan o'r gwaith a wnaed trwy'r prosiect arbrofol yn cael ei nodweddu gan frwdfrydedd yr athro oedd wrthi'n cyflwyno'r gwersi. Roedd y dulliau a ddefnyddid yn cydfynd ag argymhellion Estyn ar gyfer addysgu ITM yn effeithiol, gan gynnwys y pwyslais ar sgiliau llafar, y defnydd ar waith pâr a grŵp i alluogi i

ddisgyblion ymarfer y sgiliau hyn a'r defnydd ar adnoddau arbenigol megis byrddau gwyn rhyngweithiol.[1]

5.3 Beth bynnag oedd model y ddarpariaeth addysgu arbenigol roedd mwyafrif yr athrawon dosbarth cynradd naill ai'n eistedd yn yr ystafell yn ystod y gwersi neu wrthi'n weithredol gyda chyflwyno neu gynorthwyo i gyflwyno'r sesiwn. Serch hyn, roedd enghreifftiau o athrawon cynradd nad oeddynt yn cymryd rhan yn y wers iaith ac nad oeddynt, felly, yn hollol ymwybodol o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Roedd amrywiadau ychwanegol oddi mewn i glystyrau o ran y graddau roedd athrawon dosbarth yn yr ysgol gynradd yn atgyfnerthu'r wers ITM. Dywedodd 36% o staff cynradd eu bod yn atgyfnerthu'r wers yn rheolaidd trwy feysydd eraill yn y cwricwlwm. Dywedodd 44% eu bod yn gwneud hynny weithiau. Dywedodd 19% nad oeddynt byth yn gwneud.

5.4 Cymharol ychydig o newid neu ddatblygu ar y dulliau addysgu a fu yn ystod y prosiect arbrofol. Dywedodd 19% o staff fod yr athrawon cynradd wedi bod yn ymwneud mwy â'r addysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth i'w hyder gynyddu ond dywedodd 17% fod athrawon dosbarth bellach yn gwneud llai, fel arfer oherwydd newidiadau ar y staff neu'r amserlen. Mae hyn yn awgrymu bod ymwneud gan yr athro dosbarth yn cynyddu ble bydd cysondeb o ran staff, ond bod newid staff yn aml yn gallu gweithio'n erbyn yr effaith hon.

Dulliau cyflwyno

5.5 Ar waethaf y bodlonrwydd amlwg ar bob math o ddulliau addysgu y farn gyffredinol oedd fod addysgu arbenigol yn bwysig. Dywedodd dros 80% o staff ysgolion (tabl 5.2) ei bod hi'n bwysig cael staff arbenigol i gyflwyno gwersi ITM ar CA2. Nododd pump o'r ysgolion cynradd nad oeddent yn rhan o'r prosiect ond a gafodd eu cyfweld gan y clorianwyr y byddai cael athro arbenigol wedi ei gyllido yn amod bod ynglŷn â darparu ITM yn y dyfodol.

Tabl 5.2: asesiad staff ysgolion cynradd o'r angen am athrawon arbenigol ITM: % ymatebion

	Pwysig		Heb fod yn bwysig	
	Pennaeth	Athro	Pennaeth	Athro
Pwysigrwydd cael athrawon arbenigol ar gyfer y ddarpariaeth ITM yn yr ysgol	81	84	15	14

5.6 Roedd y prosiect arbrofol yn cynnwys ystod o athrawon arbenigol o arbenigwyr ITM yn yr ysgol uwchradd at athrawon peripatetig neu athrawon cynradd gyda gwybodaeth ddofn am iaith a'r dulliau priodol ganddynt ar gyfer ei dysgu hi. Roedd pa fath o arbenigwr oedd orau gan bobl yn tueddu i adlewyrchu'r math o gyflwyno roedd staff wedi ei brofi yn ystod y prosiect (tablau 5.3 a 5.4). Roedd y rhai a gafodd athro ysgol uwchradd yn ymweld â hwy yn tueddu i feddwl mai dyma'r dull gorau ar y ddarpariaeth a'r rhai oedd â phrosesau cyflwyno mewnol am gadw eu hannibyniaeth.

[1] *Aiming for excellence in modern foreign languages: Estyn guidance for schools and local education authorities.* Estyn, 2002. ffeil Pdf: http://www.estyn.gov.uk/publications/AimingforExcellenceMFLE.pdf

Tabl 5.3: athrawon dosbarth sy'n credu bod y dull presennol o addysgu ITM yn effeithiol

	Ydi %	Nac ydi %	Ddim yn gwybod %
Athrawon Dosbarth	96	2	2

Tabl 5.4: penaethiaid a dirprwyon sy'n credu bod y dull presennol o addysgu ITM yn effeithiol

	Ydi %	Nac ydi %	Ddim yn gwybod %
Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid	91	2	8

5.7 Boed yn athro peripatetig, yn athro uwchradd neu'n rhywun arall o'r tu allan, ystyrid bod gan athro yn dod i'r ysgol i addysu fanteision:-

- Roedd disgyblion yn mwynhau cael rhywun gwahanol yn eu dysgu ac ym mhob clwstwr a ddefnyddiai athro o'r tu allan nododd y disgyblion fod cael athro gwahanol yn agwedd gadarnhaol ar y wers iaith.
- Roedd staff cynradd yn rhoi gwerth ar fodel yr 'ymwelydd' am ei fod yn cael gwared ar y pwysau o baratoi a chyflwyno'r wers ac roedd hyn yn agwedd arwyddocaol ar eu brwdfrydedd dros y prosiect.
- Gwnaed y sylw hefyd gan athrawon cynradd fod y wers ITM yn cael ei gwarchod trwy gael rhywun yn ymweld a thrwy hynny heb gael ei gwasgu allan gan anghenion brys eraill, fel sy'n bosibl gyda gwaith y tu allan i'r craidd.
- Nid oedd pob athro cynradd yn ymuno â'r wers ITM ond dywedodd llawer o'r rhai a wnaeth fod y disgyblion ar eu hennill o'u gweld hwythau fel dysgwyr ac roedd hyn o gymorth iddynt gyfrannu'n llawn at y gwaith atgyfnerthu rhwng y gwersi.
- Yn olaf, roedd athrawon cynradd yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd datblygu staff trwy weld sut oedd arbenigwr iaith yn cyflwyno gwers ITM a soniodd sawl un eu bod wedi gallu defnyddio rhai o'r technegau a'r dulliau yn eu gwaith eu hunain, yn enwedig wrth ddysgu Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg.

5.8 Ar ôl bod ynglŷn â'r prosiect dim ond 6% o athrawon cynradd a ddywedodd eu bod am gymryd yr addysgu drosodd a dim ond 9% a ddywedodd y gallent wneud hynny. Nid dim ond pan oedd gan athro ddiffyg profiad ITM roedd y cyndynrwydd hwn yn amlwg. Er enghraifft, dywedodd un athrawes a lefel 'A' ITM ganddi ei bod yn amharod i ddysgu'r iaith yn ei dosbarth oherwydd, gan oedd erioed wedi gwneud, na fyddai ganddi mo'r amser i baratoi'n ddigonol a chyflwyno'r wers.

5.9 Dywedodd 78% o staff ysgolion a wnaeth sylwadau fod cael arbenigwyr yn cymryd rhan wrth graidd safon y gwaith. Golygai rhwyddineb yr athrawon arbenigol gyda'r iaith fod y gwersi fel arfer ar fodel 'trochi' ble nad oedd bron ddim Cymraeg na Saesneg yn cael eu defnyddio yn ystod y sesiwn gyda'r disgyblion yn ymgynefino â deall yr iaith lafar. Roedd yr athro arbenigol yn

gallu bod yn fwy hyblyg hefyd, gan ymateb i gyfleoedd yn hytrach na chael ei orfodi i gadw'n gaeth at gynlluniau gwersi.

Cysylltiadau trosglwyddo

5.10 Er bod pob math o ddarpariaeth arbenigol yn cael ei gwerthfawrogi, disgrifid yr un a gysylltai â'r ysgol uwchradd fel yr un a gynigiai fanteision neilltuol. Ystyriai'r athrawon cynradd yr athro arbenigol yn bwysig ar gyfer sicrhau dilyniant wrth ddysgu'r iaith. Dywedwyd wrth y clorianwyr y byddai athro medrus sy'n dysgu'r iaith yn gywir, a chyda gwybodaeth o beth a gaiff ei wneud nesaf, yn gallu sicrhau trosglwyddo llwyddiannus i gwrs CA3. Mynegwyd pryder y gellid gorfod ailwneud y gwaith heb arbenigwr, gan arwain at golli diddordeb. Roedd rhieni hwythau'n ei hystyried yn bwysig nad oedd y gallu i adeiladu ar waith CA2 yn cael ei golli.

(Mae ITM yn beth da mewn ysgol gynradd) C*yn belled â'u bod yn <u>adeiladu</u> ar y wybodaeth sydd ganddynt yn lle 'dechrau eto' ym mlwyddyn 7.* (Sylw rhiant)

5.11 Y model mwyaf cyffredin ar gyfer cyflwyno'r gwersi oedd trwy athro o'r ysgol uwchradd neu athro peripatetig a gefnogir gan yr ysgol uwchradd. Nodwyd gwerth cael athro o'r ysgol uwchradd mewn dau faes penodol.

- Roedd disgyblion yn gwerthfawrogi dod i adnabod athro o'r ysgol uwchradd am ei fod yn gwneud y broses drosglwyddo yn un fwy cyfforddus. Roedd hyn yn neilltuol o wir pan oedd yr un athro yn dysgu'r un disgyblion ym mlwyddyn 7.

- Roedd cynnwys yr athro ysgol uwchradd wrth gyflwyno prosiect arbrofol yng Nghyfnod Allweddol 2 o gymorth i sicrhau bod dilyniant yn cael ei gydnabod wrth gyflwyno Cyfnod Allweddol 3, yn enwedig yn achos clwstwr llawn. Roedd peth tystiolaeth, er mai bach oedd y sampl, fod cyswllt yr ysgolion cynradd â'r ysgol uwchradd yn llai effeithiol pan oedd yr ysgolion cynradd yn cyflwyno'r gwersi yn fewnol eu hunain, ac roedd dysgu iaith blaenorol y disgyblion yn llai tebygol o gael ei gymryd i ystyriaeth ym mlwyddyn 7.

5.12 Gwelir gwerth cyfraniad yr ysgol uwchradd yn sylwadau'r rhieni. Er bod dros 50% o rieni disgyblion CA3 yn gyfangwbl yn teimlo bod astudio ITM yn yr ysgol gynradd wedi bod o fantais wrth gynorthwyo eu plentyn i ymgartrefu yn yr ysgol uwchradd, dim ond 12% o'r rhai roedd eu plant wedi cael eu dysgu ar raglen 'fewnol' gan yr ysgol gynradd a deimlai felly.

Cyflwyno mewnol

5.13 Ystyrid mai'r fantais wrth gael y ddarpariaeth ITM yn cael ei chyflwyno gan staff yn yr ysgol gynradd ei hun oedd y gallu i ddod â gwaith ITM yn rhan o'r cwricwlwm ehangach, er bod hynny'n dal i ddibynnu ar bod gan yr athro dan sylw rywfaint o ruglder yn yr iaith.

5.14 Roedd staff yr ysgolion a ddywedodd nad oedd hi'n bwysig cael arbenigwyr i gyflwyno gwersi ITM yn canolbwyntio ar bwysigrwydd brwdfrydedd. Eu barn hwy oedd fod brwdfrydedd gydag adnoddau effeithiol yn gefn iddo yn

bwysicach nag arbenigedd iaith. Er mai barn lleiafrif oedd hon (gweler tabl 5.2) roedd tystiolaeth yn y gwaith cloriannu i'w chefnogi. Ar wahân i bryder a leisiwyd mewn un clwstwr ysgol uwchradd ynghylch ynganu, roedd gwersi ITM a roddid gan athrawon ysgolion cynradd yn cael eu gweld yn llwyddiant gan ddisgyblion, rhieni a chydweithwyr yn yr ysgol uwchradd.

5.15 Fodd bynnag, roedd gwersi o'r fath yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno fel arfer gyda pheth cyfraniad gan yr ysgol uwchradd ac weithiau'n cael eu hategu gan wersi llai aml dan arweiniad arbenigwr. Roedd hi'n eglur hefyd fod gan yr athrawon ysgolion cynradd a oedd ynglŷn â hyn ymrwyniad cadarn at y gwaith ac roedd ganddynt naill ai wybodaeth ymarferol dda o'r iaith roeddynt yn ei dysgu neu roeddynt yn buddsoddi amser er mwyn datblygu eu sgiliau iaith. Er enghraifft, roedd pedwar athro o un clwstwr yn mynychu dosbarth nos Ffrangeg. Mewn un ysgol gynradd roedd aelod o'r staff cefnogi wrthi gyda chyflwyno'r gwersi oherwydd yr arbenigedd iaith oedd ganddi, gan roi blaenoriaeth i sgiliau iaith o flaen hyfforddiant athro.

Tystiolaeth am addysgu a dysgu llwyddiannus a pham y bernir eu bod yn llwyddiant

5.16 Fel a nodwyd yn barod, roedd lefel uchel dros ben o fodlonrwydd ar ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgolion (tabl 5.1). Teimlai bron bawb o'r athrawon fod yr ansawdd naill ai'n uchel neu'n uchel iawn. Ategir hyn gan ymatebion gan ddisgyblion a rhieni. Roedd y disgyblion yr ymgynghorwyd â hwy bron yn ddieithriad yn mwynhau'r gwersi a llawer ohonynt yn dweud mai'r rhain oedd eu ffefrynnau. Disgrifid y gwersi yn fynych fel rhai hwyliog ond nododd y disgyblion hefyd fod dysgu rhywbeth newydd am wlad a diwylliant arall yn eu cynhyrfu. Mewn arolwg o 26 o ddisgyblion ym mlwyddyn 7, er enghraifft, dywedodd bron eu hanner eu bod wedi mwynhau dysgu Ffrangeg ym mlwyddyn 6 am fod yr athro yn un da a dywedodd 16 ohonynt iddynt gael blas ar ddysgu am wlad ac iaith arall.

5.17 Roedd y gwersi i gyd yn canolbwyntio ar gymryd rhan ar lafar. Roedd y defnydd a wneid ar waith ysgrifenedig yn amrywio ac yn tueddu i gynyddu wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen. Dywedodd tros hanner yr athrawon a gymerai ran fod y dulliau addysgu wedi datblygu a gwella yn ystod y prosiect arbrofol. Roedd adnoddau newydd yn cael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o achosion, gan gynnwys cynnydd yn y defnydd ar fyrddau gwyn rhyngweithiol, y rhyngrwyd a CD romau. Roedd cynnydd hefyd ar ledaenu dulliau addysgu mwy traddodiadol gan gynnwys llyfrau gwaith a defnyddio gemau a chaneuon.

Tabl 5.5: newidiadau datblygu'r cwricwlwm yn y ffordd y cynhelid prosiect ITM yn y clwstwr - % ymatebion

Ymatebydd	Oedd	Nac oedd	Ddim y gwybod
Penaethiaid	18	69	13
Athrawon (eraill)	33	60	6

5.18 Roedd gwersi yn cael eu disgrifio yn hwyl gan 87% o ddisgyblion ysgolion cynradd a nododd athrawon y brwdfrydedd a godid gan y sesiynau. Nodai'r disgyblion y defnydd ar gemau, caneuon, bwrdd gwyn rhyngweithiol ac amlygrwydd y gwaith llafar fel y pethau a wnâi'r gwersi ITM yn wahanol ac yn llwyddiannus. Roedd yr 11% a ddywedai fod y gwaith yn anodd yn dweud eu bod yn cael blas arno weithiau. Roedd disgyblion yn hoff o'r defnydd ar ganeuon, meddent, am ei fod o gymorth iddynt gofio'r gwaith. Nododd chwarter y disgyblion rinweddau penodol yr athro arbenigol, megis eu hyder yn eu hyngangiad, yn beth gwerthfawr yn y gwersi. Roedd bod yr athro dosbarth wrthi'n cymryd rhan yn cael ei ystyried yn bwysig gan chwarter y disgyblion.

Tabl 5.6: Asesiad disgybliom o wersi ITM - % ymatebion

Ymateb	Do	Naddo
Disgyblion cynradd a gafodd flas ar wersi ITM	97	4

Tabl 5.7: asesiad rhieni disgyblion CA2 a CA3 o wersi ITM ar CA2 - % ymatebion

	Anghytuno	Ddim yn gwybod	Cytuno	Cytuno'n Gryf
(CA3) Cafodd fy mhlentyn flas ar ddysgu iaith newydd yn yr ysgol gynradd	6	4	62	26
(CA2) Mae fy mhlentyn yn cael blas ar ddysgu iaith newydd yn yr ysgol gynradd	4	3	46	45

5.19 Gofynnwyd i rieni disgyblion CA2 a oeddynt yn gweld tystiolaeth o ddysgu ehangach drwy ymwneud eu plentyn ag ITM (tabl 5.8). Teimlai 75% fod eu plentyn yn fwy ymwybodol o wledydd eraill oddi ar dechrau dysgu iaith dramor a theimlai 87% y byddai dysgu iaith arall o gymorth i'w plentyn ddeall pobl o wledydd eraill yn well.

Tabl 5.8: asesiad rhieni disgyblion CA2 o effeithiau dysgu ehangach addysgu ITM - % ymatebion

	Anghytuno	Ddim yn gwybod	Cytuno	Cytuno'n Gryf
Mae fy mhlentyn yn fwy ymwybodol o wledydd eraill ers dechrau dysgu iaith dramor	12	12	54	21
Bydd dysgu iaith newydd o gymorth i'm plentyn ddeall pobl o wledydd eraill yn well	8	3	62	25

6. Effaith ar ddisgyblion

Barn staff yr ysgolion, y disgyblion a'r rhieni oedd fod prosiect arbrofol ITM wedi cael effaith fuddiol ar ddisgyblion.

Roedd wedi cael effaith fuddiol ar drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac ar ddysgu ITM ar CA3. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen gwelai staff yr ysgolion fwy o dystiolaeth o effaith gadarnhaol ar drosglwyddo gyda 56% yn 2005 yn dweud fod yna effaith a 69% yn dweud hynny yn 2006. Roedd cryfder y clwstwr ysgolion yn allweddol i'r effaith ar drosglwyddo a dilyniant. Heb glwstwr llawn, ni all ysgolion gynllunio ar gyfer dilyniant.

Roedd y rhan fwyaf o'r asesu effaith ar CA3 yn ansoddol. Roedd llai na chwarter yr ysgolion a arolygwyd yn casglu data meintiol. Fodd bynnag, ble roedd data o'r fath yn cael eu casglu roeddent yn dangos yn gyson fod effaith y prosiect arbrofol yn gadarnhaol.

Dywedodd pob disgybl fod dysgu ITM ar CA2 wedi eu cynorthwyo ar CA3 a dywedodd 81% o rieni disgyblion CA3 fod astudio eu plant ar ITM yn yr ysgol uwchradd wedi cael ei gynorthwyo trwy iddynt fod ynglŷn â'r prosiect.

Roedd tystiolaeth o ddiddordeb a chael blas ar astudio ITM yn parhau, gyda disgyblion a rhieni blwyddyn 8 yn dal yn frwdfrydig dros ben. Roedd ar 88% o rieni eisiau i'w plentyn astudio ITM ar lefel TGAU.

Ar waethaf cael blas ar ddysgu ieithoedd dim ond 64% o ddisgyblion ysgolion cynradd a 46% o ddisgyblion ysgolion uwchradd a gymerai rai yn y prosiect a fwriadai astudio ITM ar lefel TGAU. Mae astudiaethau Estyn yn awgrymu bod dewis pynciau ar CA4 yn cael ei ddylanwadu gan ystod o ffactorau gwahanol nad oes a wnelont â chael blas ar ddysgu ieithoedd.

Ystyrir bod â gradd o ruglder mewn dwy iaith (Cymraeg a Saesneg) yn cynnig mantais wrth ddysgu trydedd a phedwaredd iaith. Fodd bynnag, roedd y gwaith cloriannu yn nodi gwahaniaethau yn sut y canfyddir y fantais yn ôl cefndir ieithyddol y disgyblion a'r math o ysgol. Mae'r rhain yn ymrannu'n dri chategori bras:

a. disgyblion a'r Gymraeg yn iaith y cartref ganddynt ac y gellir eu galw yn 'naturiol ddwyieithog'.
b. disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith eu cartref ond sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn aml o bedair oed neu'n iau, ac sydd wedi ennill gradd uchel o ruglder yn y ddwy iaith oherwydd cefndir yr ysgol.
c. disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith eu cartref ac sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig yn yr ysgol ac y gellir eu disgrifio fel dysgwyr.

Ystyrid mai gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chanddynt radd uchel o ruglder yn y ddwy iaith roedd y brif fantais wrth ddysgu ITM. Tueddai athrawon a rhieni disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi sicrhau dwyieithrwydd i fod y rhai mwyaf brwdfrydig ynghylch dysgu ITM

a'r manteision sydd gan ddwyieithrwydd o ran caffael trydedd neu bedwaredd iaith.

Roedd y prosiect ITM yn llwyddiant o safbwynt cael gan fechgyn a merched gymryd rhan. Roedd yn aml yn gallu cynnwys disgyblion gydag anghenion arbennig hefyd oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar wrando a siarad.

Cyfnod Allweddol 3

6.1 Nid oedd y gwaith cloriannu yn gallu dilyn unrhyw ddisgyblion y tu draw i flwyddyn 8 ac felly mae unrhyw tystiolaeth am yr effaith ar CA3 o reidrwydd yn ddamcaniaethol.

6.2 Gofynnwyd i'r athrawon pa dystiolaeth a welent o'r effaith pan gyrhaeddai disgyblion flwyddyn 7. Credai mwyafrif staff yr ysgolion y byddai gan gymryd rhan yn y prosiect arbrofol effaith gadarnhaol ar astudio yng Nghyfnod Allweddol 3 (gweler tabl 6.1). Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen roedd staff yr ysgolion yn mynd yn fwy argyhoeddedig fod yna effaith gadarnhaol ar CA3.

Tabl 6.1: Effaith ITM ar Gyfnod Allweddol 3

	Cadarnhaol CA3 %		Niwtral %		Ddim yn gwybod %	
	2005	**2006**	**2005**	**2006**	2005	**2006**
Staff ysgolion	70	89	0	9	30	1

6.3 Dywedodd bron bawb o staff yr ysgolion uwchradd a gymerai ran yn y prosiect arbrofol fod y gwaith CA2 wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ieithoedd ar CA3. Roedd 15% o staff CA3 yn nodi mesuriadau effaith penodol-

Y llynedd gweithiais allan y lefelau a gyrhaeddwyd ganddynt ar ddiwedd blwyddyn 7. Ar gyfartaledd roeddynt tua hanner lefel yn uwch.

Mae safonau wedi codi… ac rydym yn cyrraedd lefel 6 erbyn blwyddyn 8.

Rydym wedi gwneud yn barod (ym mlwyddyn 6) yr hyn y byddem wedi ei wneud yn nau dymor cyntaf blwyddyn 7)
(sylwadau athro uwchradd)

6.4 Fodd bynnag, roedd defnyddio mesuriadau meintiol yn brin ac roedd y rhan fwyaf o'r mesuriadau a ddefnyddid i fesur yr effaith yn rhai ansoddol, yn canolbwyntio ar arsylwadau o lefelau diddordeb, hyder a brwdfrydedd. Rhoddodd 96 o staff yr ysgolion sylwadau ar gynllunio dilyniant a dim ond 26% a ddisgrifiodd brosesau cynllunio penodol. Disgrifiodd 22% addasiadau neu ddatblygiadau ar gynlluniau gwaith a 10% y defnydd ar borffolios neu lyfrau gwaith yr eid â hwy i'r ysgol uwchradd a/neu asesiadau wedi eu gwneud ar ddiwedd blwyddyn 6 a ganiatâi i ddisgyblion fynd i setiau ym mlwyddyn 7.

6.5 Yr effaith fwyaf cyffredin a nodwyd gan staff yr ysgolion uwchradd oedd y mwy o frwdfrydedd dros ddysgu iaith a welid mewn disgyblion wrth iddynt gyrraedd blwyddyn 7. Disgrifid hefyd fel roedd gan y disgyblion fwy o hyder, yn enwedig yn eu parodrwydd i gyfrannu ar lafar yn y dosbarth ac roedd eu cyfraniadau llafar yn cael eu hystyried o ansawdd uwch. Roedd nifer fechan o staff (4%) yn dweud bod yr effaith yn pylu wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Ble nad oes clwstwr llawn ceir pryder na ellir cynnal y fantais a enillwyd a hyd yn oed beth tystiolaeth o effaith negyddol gyda'r disgyblion yn gorfod ailfynd dros yr un gwaith wedyn.

6.6 Roedd pob ysgol a chanddi fesurau ffurfiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn nodi bod gan y prosiect arbrofol effaith er lles. Fodd bynnag, roedd llai na thraean o staff ysgolion uwchradd yn dweud eu bod wedi datblygu systemau ffurfiol i fonitro dilyniant disgyblion a gymerai ran yn y prosiect.

6.7 Dywedodd rhai ysgolion cynradd mai anaml y caent ddim adborth o'r ysgolion uwchradd ar ddilyniant disgyblion, gan eu gadael yn y niwl am effaith y prosiect.

"dydym ni ddim yn cael adborth. Roeddwn wedi gobeithio cael adborth. Hoffwn gael gwybod beth sy'n cael ei ddysgu, a faint sy'n cael ei wneud."
Athro ysgol gynradd

6.8 Roedd yna enghreifftiau o waith arwyddocaol ar olrhain dilyniant yn cael ei wneud mewn ambell glwstwr. Disgrifiodd un ysgol uwchradd sut roedd eu proses olrhain yn galluogi iddynt edrych ar sut mae agweddau at ddysgu ieithoedd yn newid rhwng blwyddyn 8 a 9 ac mae un arall yn defnyddio ei phrif gronfa ddata i gofnodi newidiadau mewn lefelau cyrhaeddiad. Ar ben hyn, mae o leiaf ddau glwstwr yn archwilio'r opsiwn o 'gyflymu' disgyblion at TGAU flwyddyn neu ddwy yn gynt, ac felly'n lleihau'r pwysau o gael iaith yn 'cystadlu' â dewisiadau TGAU eraill ac elwa ar fanteision 'dechrau'n gynnar' wrth ddysgu iaith dramor.

6.9 Gofynnwyd i rieni disgyblion mewn ysgolion uwchradd a oeddynt yn teimlo bod cymryd rhan yn y prosiect wedi bod o fudd wrth ddysgu ITM ar CA3. Ym mlwyddyn olaf y prosiect arbrofol cytunai 81% fod maintais wedi bod wrth ddysgu iaith o CA2 i CA3, cynnydd ar 71% yn ystod yr ail flwyddyn pan oedd rhieni yn fwy tebygol o ddweud nad oeddynt yn gwybod pa effaith fyddai yna. Fodd bynnag, roedd rhieni yn llai tebyg o gytuno'n gryf fod y prosiect wedi cael effaith er lles nag yr oeddynt yn 2005.

Tabl 6.2: Barn rhieni ar effaith y prosiect ar ddysgu ieithoedd ar CA3.
% ymatebion

	Angytuno		**Ddim yn gwybod**		**Cytuno**		**Cytuno'n Gryf**	
Rhieni CA3	2005	2006	2005	2006	2005	2006	2005	2006
Mae dysgu iaith dramor yn yr ysgol gynradd wedi cynorthwyo fy mhlentyn i ddal ati i ddysgu iaith dramor yn yr ysgol gyfun	4	8	25	7	30	49	41	32

6.10 Roedd ymatebion rhieni yn nodi bod y blas a gâi'r disgyblion ar ddysgu iaith newydd yn cael ei gynnal, a hyd yn oed ei wella rywfaint, trwy eu trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Nid yw'r rhieni yn dangos fawr ddim newid ym mrwdfrydedd eu plentyn dros ddysgu ieithoedd hyd at flwyddyn 8 (tabl 6.3).

Tabl 6.3: Barn rhieni ar effaith y prosiect ar ddysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3. % ymatebion

	Ddim yn cytuno	Ddim yn gwybod	Cytuno	Cytuno'n gryf
Cafodd fy mhlentyn *CA2* flas ar ddysgu iaith newydd yn yr ysgol gynradd	5	4	62	26
Mae fy mhlentyn *CA3* yn cael blas ar ieithoedd yn yr ysgol uwchradd	4	4	66	25
Mae fy mhlentyn *blwyddyn 8* yn cael blas ar ddysgu ieithoedd	3	6	70	21

6.11 Dywedodd 97% o ddisgyblion ysgolion cynradd eu bod yn cael blas ar ddysgu iaith arall a dywedodd bron pob un ohonynt eu bod yn edrych ymlaen at ddal ati i ddysgu ITM yn yr ysgol uwchradd.

6.12 Dywedodd pob disgybl CA3 a gafodd gyfweliad fod eu hymwneud â'r prosiect CA2 wedi gwneud dysgu ieithoedd yn haws iddynt yn yr ysgol uwchradd. Dywedodd 11% eu bod yn cael blas ar ddysgu ITM hyd yn oed yn fwy yn yr ysgol uwchradd a dywedodd 21% nad oeddynt yn cael cymaint o flas arno ag a gawsant yn yr ysgol gynradd. Dywedodd 66% o'r disgyblion ysgol uwchradd fod eu gwersi ITM yn hwyl, gyda dulliau addysgu a oedd yn cynnwys gemau a gweithgareddau.

Cyfnod Allweddol 4

6.13 Gofynnwyd i rieni a hoffent weld eu plentyn yn dal ati i astudio iaith dramor at lefel TGAU.

6.14 Mae tabl 6.4 yn dangos fod rhieni bron yn unfryd am i'w plentyn astudio iaith dramor ar lefel TGAU. Roedd rhieni yn frwd dros gynnal dysgu ieithoedd, gyda 88% o rieni ysgolion cynradd ac uwchradd yn awyddus i'w plentyn barhau at lefel TGAU. Mae rhieni disgyblion ysgolion uwchradd yn llai brwd na rhai disgyblion ysgolion cynradd (gweler y golofn 'cytuno'n gryf'. Tabl 6.4) ond mae'r ddwy set am weld eu plant yn dysgu ieithoedd ar lefel uwch. Mae rhieni disgyblion ym mlynyddoedd 8 a 9 yn llawn mor frwd (mae tabl 6.5 yn dangos fod 91% am i'w plant astudio ITM tan TGAU) er bod y canran 'cytuno'n gryf' yn dal i leihau. Roedd rhieni a phlant ganddynt mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn fwy awyddus i'w plentyn astudio iaith dramor ar lefel TGAU ond erbyn y lefel uwchradd roedd eu hymateb yn cyfateb i un rhieni a phlant ganddynt mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae Estyn wedi canfod fod niferoedd arwyddocaol o ysgolion yn adrodd fod rhai disgyblion,

yn enwedig disgyblion o gyrhaeddiad isel, yn teimlo bod un iaith yn ddigon.[2] Gallai'r agweddau hyn fod yn cael eu rhannu neu'u hannog gan agweddau'r rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn gyson ledled Cymru ac yn ôl Estyn mae llawer o ysgolion yn cael llwyddiant yn hyrwyddo dwy neu ragor o ieithoedd.

Tabl 6.4: Barn rhieni am gynnal dysgu ieithoedd ar CA4. % ymatebion

	Anghytuno		Ddim yn gwybod		Cytuno		Cytuno'n Gryf	
Yr holl rieni	CA2	CA3	CA2	CA3	CA2	CA3	CA2	CA3
Hoffwn i'm plentyn ddai ati i astudio iaith dramor tan TGAU	2	2	8	7	48	59	40	29

Tabl 6.5: Barn rhieni am gynnal dysgu ieithoedd ar CA4 ym mlynyddoedd 8/9. % ymatebion

Rhieni disgyblion ym mlwyddyn 8 a 9	Anghytuno	Ddim yn gwybod	Cytuno	Cytuno'n Gryf
Hoffwn i'm plentyn blwyddyn 8/9 ddal ati i astudio iaith dramor tan TGAU	0	9	64	27

6.15 Teimlai rhieni disgyblion o fechgyn a merched fel ei gilydd fod astudio iaith dramor ar lefel TGAU yn bwysig. Erbyn blwyddyn 7 (tabl 6.6) roedd rhieni bechgyn yn dangos mwy o frwdfrydedd (gweler y golofn 'cytuno'n gryf') na rhai merched. Mae hyn yn groes i ganfyddiadau ymchwil diweddar y cyfeirir atynt gan Estyn fod gogwydd rhyw at ferched wrth ddewis ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 3.[3]

Tabl 6.6: Barn rhieni ar gynnal dysgu ieithoedd wrth i'r prosiect arbrofol fynd yn ei flaen ac yn ôl rhyw. % ymatebion

	Anghytuno		Ddim yn gwybod		Cytuno		Cytuno'n Gryf	
Rhieni disgyblion CA3	2005	2006	2005	2006	2005	2006	2005	2006
Hoffwn i'm plentyn ddal ati i astudio iaith dramor tan TGAU	3	2	8	7	45	59	45	29
Hoffwn i'm plentyn (benywaidd) ddal ati i astudio iaith dramor tan TGAU	1	3	8	10	41	59	50	26
Hoffwn i'm plentyn (gwrywaidd) ddal ati i astudio iaith dramor tan TGAU	4	3	8	3	50	59	38	32

[2] Estyn (2004) *Aiming for Excellence in Modern Foreign Languages.* Estyn Guidance for Schools and Local Education Authorities, Caerdydd: Estyn
[3] Ibid.

6.16 Ceir gwahaniaeth yn y golofn cytuno'n gryf yn nhabl 6.6 rhwng 2005 a 2006. Mae hyn yn awgrymu, wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, fod brwdfrydedd rhieni dros astudio ITM ar lefel TGAU wedi lleihau. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith fod cyfran uwch o rieni a phlant ganddynt ym mlwyddyn 8 erbyn 2006 a bod eu brwdfrydedd ar i waered neu oherwydd fod sawl ysgol wedi cynnal sesiynau gwybodaeth arbennig i rieni ar gychwyn y prosiect arbrofol, a oedd yn cyflwyno'r rhaglen ITM, ond heb ddal ati i gynnwys rhieni wedyn. Serch hyn, mae'r cytuno cyffredinol â'u bod am i'r plentyn astudio iaith dramor at lefel TGAU yn dal yn gyson uchel. Rhieni disgyblion 'naturiol ddwyieithog', sef disgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd pennaf Cymraeg eu hiaith, oedd leiaf tebyg o fod eisiau i'w plentyn astudio iaith dramor at lefel TGAU (64%) a rhieni disgyblion o 'ddysgwyr Cymraeg' a fynychai ysgolion cyfrwng Saesneg oedd fwyaf tebyg (93%).

6.17 Fodd bynnag, dangosai ymatebion disgyblion nad oedd cael blas ar ddysgu a chydnabod pwysigrwydd ieithoedd eraill ddim yn gyfystyr ag ymrwymiad i'w hastudio ar lefel TGAU. Dim ond 64% o ddisgyblion cynradd a ddisgwyliai ddal ati i ddysgu iaith dramor a dim ond 46% o'r rhai a gafodd gyfweliad yn yr ysgolion uwchradd a ddisgwyliai astudio iaith dramor ar lefel TGAU ar waethaf eu brwdfrydedd ar hyn o bryd dros y pwnc. Hyd yn oed yn yr ysgol gynradd roedd peth tystiolaeth fod disgyblion yn gwahaniaethu rhwng eu diddordeb mewn dysgu'r iaith a'r syniad o sefyll TGAU ynddi. Fel yr eglurodd un grŵp, er ei bod hi'n wirioneddol bwysig ichi allu siarad iaith arall, mae angen ichi ddewis pynciau TGAU rydych yn meddwl y byddwch yn gwneud yn dda ynddynt.

6.18 Cyflwynodd un ysgol arolwg ysgrifenedig bychan o 26 disgybl o'r prosiect arbrofol a oedd lai na hanner ffordd trwy flwyddyn 7. Canfu hwn fod 21 ohonynt yn cael blas ar ddysgu'r un iaith gyda'r un athro, ond mai dim ond 11 ohonynt a oedd yn sicr yr hoffent ddal ati i'w hastudio.

Tabl 6.7: Disgyblion Blwyddyn 7 a'u hymateb i'r prosiect arbrofol

	Gwenu	Heb benderfynu	Gwgu
Rwy'n cael blas ar ddysgu iaith ym Mlwyddyn 7	21	4	1
Rwy'n teimlo'n hyderus wrth ddysgu'r iaith	18	8	0
Dyma bwnc yr hoffwn ddai ati i'w astudio	11	13	2
Byddai gennyf ddiddordeb mewn dysgu iaith arall	15	8	3
Rwyf wedi dechrau deall mwy am Ffrainc	22	4	0

Rhwystrau i ddysgu iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4

6.19 Ymysg y disgyblion a holwyd roedd bechgyn yn fwy tebyg o nodi'r angen i ganolbwyntio ar bynciau y teimlent roedd ganddynt y cyfle gorau o lwyddo ynddynt yn hytrach na'r rhai roedd ganddynt ddiddordeb ynddynt. Dadansoddiad Estyn yw bod disgyblion y ddau ryw yn debyg o ddewis pynciau maent yn disgwyl gwneud yn dda ynddynt. Fodd bynnag, mae adroddiad Estyn yn mynd yn ei flaen i nodi bod bechgyn yn fwy tebyg na merched i fod ag agweddau negyddol at ITM. Wrth egluro agweddau

negyddol bechgyn at ITM, mae Estyn yn cyfeirio at y tuedd o gael eu gosod mewn setiau is, eu cyndynrwydd i gymryd rhan ar lafar a'u tuedd i lunio gwaith blêr, sy'n tueddu i roi llai o farciau iddynt. Mae Estyn hefyd yn dadlau bod bechgyn yn ystyried ITM yn bynciau merched, canfyddiad a atgyfnerthir gan brinder athrawon ITM gwrywaidd.[4] Roedd nifer o atharawon y siaradasom ni â hwy yn cydnabod hyn, ac roedd un clwstwr wedi cynnwys athrawon gwrywaidd yn y prosiect, er mwyn ceisio gwyrdroi'r tueddiad.

6.20 Mae Estyn yn priodoli'r canfyddiad fod ITM yn anodd i'r cynnydd arafach mae'r disgyblion yn tueddu i'w wneud trwy'r lefelau mewn cymhariaeth â phynciau eraill, am nad ydynt wedi astudio ITM am gymaint o hyd. Os bydd myfyrwyr yn mynd trwy'r lefelau yn gyflymach, fel mae rhai athrawon yn ei obeithio, efallai y gall yr effaith hon gael ei lleihau. Yn fwy bras, mae dadansoddiad Estyn yn awgrymu bod dewis pynciau yng Nghyfnod Allweddol 4 dan ddylanwad nifer o ffactorau gwahanol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, cyndynrwydd ambell ysgol i hyrwyddo ITM, yn enwedig gyda disgyblion o gyrhaeddiad isel, y ffordd y strwythurir y setiau dewis, ac anamledd y gwersi. [5]

6.21 Archwiliodd y clorianwyr y dylanwadau ar ddewis ieithoedd tramor ar lefel TGAU gydag athrawon a rhieni. Cyfeirai'r staff addysgu at gyndynrwydd cynyddol disgyblion wrth fynd yn hŷn i gymryd rhan yn y dosbarth, i roi cynnig ar ynganiadau newydd a mentro ei gael yn anghywir. Roedd athrawon ysgolion uwchradd yn gweithio mewn ysgolion cynradd yn gwneud y sylw yn aml am ba mor awyddus yr oedd y disgyblion, yn fechgyn a merched, i gyfrannu at y dosbarth a chymaint o awyr iach oedd hynny. Roedd y parodrwydd hwn i roi cynnig ar eiriau newydd yn cael ei weld yn diflannu ar frys gyda'r disgyblion o flwyddyn 7 ymlaen yn mynd yn fwyfwy huanymwybodol ac yn amharod i fentro gwneud camgymeriadau. Mae cyndynrwydd bechgyn i gymryd rhan mewn gwaith llafar yn cael ei nodi gan Estyn (gweler uchod).

6.22 Roedd athrawon hefyd yn nodi bod dysgu iaith yn mynnu disgyblaeth academaidd benodol a allai ei wneud yn anneniadol. Adlewyrchid y farn hon gan ddisgyblion a oedd â brodyr neu chwiorydd hŷn ganddynt a oedd wedi dweud nad oeddynt yn cael blas ar ddysgu iaith dramor am ei fod yn 'anodd' ac roeddynt hwythau'n disgwyl teimlo yr un fath. Roedd y disgyblion hyn yn cael eu disgwyliadau o mor anodd oedd hi i ddysgu iaith dramor trwy adroddiadau am brofiadau o'r fath yn hytrach na thrwy'u profiadau presennol eu hunain trwy'r prosiect.

6.23 Gofynnwyd i rieni a oeddynt o'r farn ei bod hi'n anodd dysgu iaith arall (tabl 6.8). Roedd rhieni gyda phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebyg o ystyried astudio iaith arall yn anodd er bod y bwlch rhyngddynt a'r rhieni roedd eu plant yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg yn cau rywfaint ar lefel yr ysgol uwchradd.

---

[4] Ibid.
[5] Estyn (2004). *Aiming for Excellence in Modern Foreign Languages.* Estyn Guidance for Schools and Local Education Authorities. Caerdydd: Estyn
http://www.estyn.gov.uk/publications/Modern_Foreign_languages.pdf

Tabl 6.8: Mae hi'n anodd dysgu iaith arall

	Cytuno'n gryf -%	Cytuno - %	Ddim yn gwybod -%	Anghytuno - %	Anghyt - uno'n gryf - %
Yr holl rieni					
Holl rieni ysgolion cynradd	5	35	6	41	13
Cynradd cyfrwng Cymraeg	3	28	5	43	20
Cynradd cyfrwng Saesneg	7	38	7	40	8
Holl reini ysgolion uwchradd	5	46	7	29	13
Uwchradd cyfrwng Cymraeg	0	45	3	24	26
Uwchradd cyfrwng Saesneg	2	47	9	28	12

Effaith trosglwyddo ar Ddisgyblion

6.24 Holwyd rhieni disgyblion a oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect arbrofol am ei werth o ran trosglwyddo i'r disgyblion. Roedd gan rieni disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 ddisgwyliadau uchel am ei effaith ar drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3 gyda 92% yn rhagweld y byddai o fudd. Roedd 51% o rieni ar CA3 yn cytuno ei fod wedi bod o fudd gwirioneddol ac roedd 29% heb farn, yn dweud nad oeddynt yn gwybod.

Tabl 6.9: Barn rhieni am effaith y prosiect ar drosglwyddo.
% ymatebion

	Anghytuno		Ddim yn gwybod		Cytuno		Cytuno'n Gryf	
	CA2	CA3	CA2	CA3	CA2	CA3	CA2	CA3
Mae dysgu iaith dramor yn yr ysgol gynradd am gynorthwyo/wedi cynorthwyo fy mhlentyn yn yr ysgol gyfun	2	18	3	29	37	41	55	10

6.25 At ei gilydd credai staff yr ysgolion fod y prosiect wedi cael, neu am gael, effaith gadarnhaol ar gysylltiadau trosglwyddo. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen nododd y staff fwy o effaith ar drosglwyddo gyda thros 90% o athrawon a 88% o benaethiaid yn dweud bod cymryd rhan yn y prosiect arbrofol wedi cael effaith lesol yn ystod ail gam y cloriannu. Gwelid hyn yn ganlyniad gwell cyswllt rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Yr unig feysydd ble ystyrid nad oedd wedi cael dim neu fawr ddim effaith oedd pan fyddai cysylltiadau cryf eisoes yn bod neu pan oedd maint y clwstwr yn rhy fychan i gael effaith.

Tabl 6.10: Effaith prosiect arbrofol ITM ar drosglwyddo

	Cadarnhaol %	
	2005	2006
Staff ysgolion	56	89

6.26 Y ffactor allweddol wrth sicrhau mantais wrth drosglwyddo oedd cryfder y clwstwr. Roedd athrawon a disgyblion yn nodi bod cymryd rhan yn y prosiect arbrofol wedi cael effaith er lles ar drosglwyddo a oedd yn mynd ymhellach na dysgu iaith dramor yn enwedig pan oedd a wnelo'r ysgol uwchradd â chyflwyno'r addysgu. Yn y clystyrau hyn, dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 6 eu bod wedi ymweld â'r ysgol uwchradd a'u bod yn hoffi gweld athrawon yno roeddynt yn eu hadnabod. Roeddynt naill ai wedi cael gwersi wedi eu cyflwyno yn yr ysgol uwchradd neu wedi ymweld â'r ysgol uwchradd ar gyfer gweithgareddau neilltuol. Dywedodd disgyblion ac athrawon fod modd gweld manteision y cyswllt hwn yn y mwy o hyder a welid yn y dosbarth wrth ddechrau blwyddyn 7.

Dilyniant

6.27 Pan oedd y clwstwr yn fychan a/neu nid oedd perthynas y clwstwr yn gryf y pryder oedd na fyddai'r dysgu a gyflawnwyd gan y disgyblion yn cael ei gydnabod wrth iddynt symud i flwyddyn 7 ac felly y byddent yn gorfod ailadrodd llawer o'r gwaith. Er bod ailadrodd gwaith fel hyn yn boblogaidd gan rai disgyblion, am eu bod yn teimlo'n hyderus am eu bod yn gallu gwneud y gwaith, roedd eraill yn ei ddisgrifio fel rhywbeth torcalonnus. Mewn un clwstwr, er enghraifft, nid oedd staff yr ysgol uwchradd wedi gweld yr addysgu a wnaed yn yr ysgol gynradd ac yn mynegi pryderon am ei ansawdd. Nid oedd dim cynlluniau wedi eu trafod ar gyfer adeiladu ar y dysgu roedd y disgyblion wedi ei wneud. Fel a nodir yn adran 7, mae'r broblem hon wedi codi ei phen yn yr Alban.

6.28 Roedd yna hefyd, fodd bynnag, enghreifftiau diddorol dros ben o sut oedd dilyniant yn *cael* ei gynllunio yn y prosiect. Roedd dau glwstwr wedi rhoi nod o 'gyflymu' disgyblion a gymerai ran yn y prosiect arbrofol drwy'r rhaglen TGAU fel byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn sefyll eu TGAU ym mlwyddyn 9 neu 10. Mae'r dull hwn yn cynnig nifer o fanteision. Mae'n cynnal cerddediad gwaith blwyddyn 6 gan geisio cadw'r fantais o astudio iaith; mae'n adeiladu'r cyfanogiad cyn blwyddyn 9, yr adeg pan fydd bechgyn yn enwedig yn debygol o fynd yn anos cael ganddynt gyfranogi; ac mae'n cynnig mantais barhaus i'r disgyblion oherwydd fod ganddynt gyfle i gael TGAU yn fuan heb orfod pwyso a mesur a ddylid dewis iaith yn hytrach na phwnc lle maent o'r farn y gallant o bosibl gael gwell gradd ynddo.

6.29 Yn yr enghreifftiau uchod, roedd yr athrawon dosbarth cynradd a'r athrawon peripatetig neu uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd yn gosod disgyblion mewn setiau cyn iddynt gychwyn ar flwyddyn 7. Roedd athrawon ym mlwyddyn 7 yn nodi defnyddioldeb yr argymhellion hyn ac yn gallu adeiladu eu rhaglen i gwrdd â gofynion y setiau. Dywedodd tua 15% o staff yr ysgolion fod eu hysgolion yn gosod disgyblion mewn setiau cyn iddynt symud i'r ysgol uwchradd. Roedd y disgyblion yn un o'r clystyrau hyn yn werthfawrogol o'r faintais roedd cymryd rhan yn y prosiect wedi ei roi iddynt wrth gael eu gosod yn y 'setiau uchaf'.

Rwy'n hoffi bod mewn set uchel oherwydd ni fydd arnaf gywilydd petawn i'n cael cwestiwn yn anghywir a phobl yn chwerthin.. (Disgybl blwyddyn 7 yn disgrifio'r fantais a gafodd trwy fod yn y prosiect arbrofol.)

6.30 Roedd adran Ffrangeg mewn ysgol uwchradd ble roedd y clwstwr llawn yn cymryd rhan yn y prosiect wedi ymgymryd â gwaith sylweddol drwy ailysgrifennu eu holl raglenni gwaith hyd at TGAU er mwyn cynnwys y dysgu a wnaed gan y disgyblion ym mlwyddyn 6 ac adeiladu arno. Nododd yr ysgol fod 173 o'r tua 200 o ddisgyblion newydd ym mis Medi 2004 wedi cymryd rhan yn y prosiect arbrofol. Cynhaliwyd cwrs dwys ganddynt ar gyfer y disgyblion eraill er mwyn eu codi at y safon wrth ddechrau'r cwrs.

Effaith addysgiadol ehangach

6.31 Gofynnwyd i'r athrawon hefyd a oedd gan gymryd rhan yn y prosiect unrhyw effeithiau addysgiadol ehangach. Gwelai 23% (tabl 6.11) ddatblygiad mewn sgiliau llythrennedd. Dywedwyd bod y disgyblion ar eu hennill o ddatblygu sgiliau mewn dadansoddi iaith, sut rhoddir brawddegau at ei gilydd. Disgrifiodd un pennaeth sut roedd gan lawer o'u disgyblion sgiliau gwan iawn yn eu hiaith gyntaf a gwelai fod gan y prosiect ITM, ynghyd â'r Gymraeg roeddynt yn ei dysgu, effaith ar eu sgiliau cyfathrebu.

Tabl 6.11: Effaith ITM ar Lythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3

	Llythrennedd Cadarnhaol %	Llythrennedd Negyddol %	Ddim yn gwybod %
Staff	23%	0	77

6.32 Roedd traean staff yr ysgolion a wnaeth sylwadau ar fanteision ehangach yn dweud bod cymryd rhan yn y prosiect arbrofol wedi bod o les wrth ddatblygu sgiliau gwrando'r disgyblion. Fel a nodir uchod, roedd cyflwyno'r addysgu yn canolbwyntio ar waith llafar a gwelid bod hyn o gymorth gyda datblygu gallu'r disgyblion i ddysgu gwybodaeth a roddir ar lafar.

6.33 Roedd traean staff yr ysgolion a wnaeth sylwadau yn dweud bod cymryd rhan yn y prosiect arbrofol wedi cryfhau hyder y disgyblion wrth ddysgu. Teimlai'r disgyblion eu bod yn gallu cyfrannu'n weithredol ac ystyrid hyn yn bwysig yn enwedig ar gyfer plant llai academaidd a oedd y rhai mwyaf araf yn y dosbarth.

Mae'n fwy diddorol am fod yr athro yn fy nhrin fel unigolyn, yr un fath â phawb arall, heb roi mwy o sylw i un na'r lleill. Ymateb disgybl.

6.34 Disgrifiwyd y prosiect arbrofol hefyd fel un a gâi effaith er lles ar agweddau disgyblion at ieithoedd eraill hefyd. Soniai'r athrawon yn neilltuol am yr effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg. Roedd a wnelo dwy ran o dair o'r ysgolion â dysgu Cymraeg fel ail iaith a dywedodd 38% o'r staff fod cymryd rhan yn y prosiect arbrofol yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgu hwnnw.

Tabl 6.12: Effaith ar y Gymraeg

	Cadarnhaol %	Negyddol %	Niwtral %	Ddim yn gwybod %
Staff	38	13	6	43

Disgrifiwyd yr effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg fel:-

- Gwella'r addysgu – dywedodd staff ysgol gynradd a welodd y gwersi ITM eu bod wedi arsylwi ar dechnegau a syniadau ar sut mae cyflwyno gwersi Cymraeg; a
- Chodi diddordeb y disgyblion mewn dysgu ieithoedd.

Effaith sgiliau presennol y disgyblion mewn mwy nag un iaith wrth iddynt gaffael trydedd neu bedwaredd iaith

6.35 Roedd yr ymatebion gan staff yr ysgolion, rhieni a disgyblion i gyd yn dangos mantais ganfyddedig arwyddocaol o fod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg wrth ddysgu trydedd a phedwaredd iaith. Roedd y gwaith cloriannu yn nodi tri phrif amrywiad ar ddwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg disgyblion yng Nghymru.

a. disgyblion gyda'r Gymraeg yn iaith y cartref ac y gellir eu galw yn 'naturiol ddwyieithog'
b. disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith y cartref iddynt ond sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn aml o bedair oed neu'n iau, ac sydd wedi ennill gradd uchel o ruglder yn y ddwy iaith oherwydd cefndir yr ysgol.
c. disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith y cartref iddynt ond sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig yn yr ysgol ac y gellir eu galw yn ddysgwyr Cymraeg

6.36 Mae'r dystiolaeth o'r gwaith cloriannu yn awgrymu fod yna faterion gwahanol parthed dwyieithrwydd a chaffael trydedd iaith ar gyfer y tri grŵp hyn.

Tabl 6.13: y fantais sydd gan ddwyieithrwydd wrth ddysgu trydedd neu bedwaredd iaith - % ymatebion

Ymatebydd	Cadarnhaol		Niwtral		Ddim y gwybod	
	Pennaeth	Athro	Pennaeth	Athro	Pennaeth	Athro
Ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda disgyblion naturiol ddwyieithog yn bennaf	81	57	5	29	14	14
Ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda disgyblion nad yw'r Gymraeg yn iaith y cartref iddynt yn bennaf	92	88	8	12	0	0
Ysgolion cyfrwng Saesneg gyda dysgwyr Cymraeg	59	70	23	17	18	13

Ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda disgyblion wedi caffael dwyieithrwydd sydd fwyaf cadarnhaol am fanteision dwyieithrwydd gyda dysgu ieithoedd eraill. Mae'n debyg fod hyn oherwydd mai'r ysgolion hyn sydd â'r mwyaf o brofiad wrth ddysgu iaith ar lefel ysgol gynradd gyda'u disgyblion wedi cael profiad llwyddiannus o ddysgu iaith yn yr ystafell ddosbarth. Roedd athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn naturiol ddwyieithog yn llai cadarnhaol na'r penaethiaid. Roedd tuedd ynddynt i gysylltu problemau cynnwys disgyblion di-Gymraeg mewn dosbarthiadau ac

roedd rhai ohonynt (14%) yn teimlo bod y gofyn am ddysgu iaith arall yn rhoi'r disgyblion dan ormod o bwysau.

6.37 Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg roedd yr ymatebion niwtral yn perthyn yn bennaf i ansicrwydd ynghylch effaith dysgu Cymraeg. Roedd tuedd i'r athrawon yn yr ysgolion hyn fod yn fwy cadarnhaol na'r penaethiaid.

6.38 Gofynnwyd i'r rhieni hwythau a oeddynt yn teimlo fod eu plentyn yn dysgu Cymraeg a Saesneg yn fantais iddynt wrth ddysgu trydedd neu bedwaredd iaith. Mae eu hymatebion yn adlewyrchu rhai'r penaethiaid ysgolion i raddau helaeth.

Tabl 6.14: Barn rhieni ar effaith y prosiect arbrofol ar ddysgu iaith ar CA3. % ymatebion

Mae dysgu Cymraeg a Saesneg wedi rhoi man cychwyn da i'r plentyn allu dysgu iaith arall	Cytuno/cytuno'n gryf
Ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd â disgyblion naturiol ddwyieithog yn bennaf	81
Ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda disgyblion nad yw'r Gymraeg yn iaith y cartref iddynt yn bennaf	95
Ysgolion cyfrwng Saesneg gyda dysgwyr Cymraeg	58

6.39 Nodwyd yr effeithiau cadarnhaol mewn tri phrif faes. Ystyrir mai'r brif effaith oedd yr hyder oedd gan ddisgyblion wrth fynd ati i ddysgu iaith newydd. Effeithiau eraill oedd gramadeg ac ynganiad.

- Ystyrid bod mantais o ran gramadeg gan fod disgyblion wedi arfer â gwahaniaethau o ran adeiladwaith brawddegau a threfn geiriau.
- Roedd mantais o ran ynganu oherwydd fod disgyblion yn gynefin â chlywed a defnyddio geiriau sy'n swnio'n wahanol ac sy'n defnyddio synau lleisiol gwahanol.
- Roedd hyder wrth ddefnyddio'r iaith newydd yn cael ei gryfhau gan fod y disgyblion ar eu cynefin â chyfathrebu'n effeithiol mewn mwy nag un ffordd.

Table 6.15: Ffactorau a nodwyd mewn dwyieithrwydd sy'n cynorthwyo caffael trydedd neu bedwaredd iaith.

	Gramadeg %	Ynganiad %	Hyder %
Staff	22	27	51

6.40 Ystyrid mai'r effeithiau negyddol oedd y perygl y byddai'r disgyblion yn drysu os oeddynt yn dysgu Cymraeg ac iaith dramor. Roedd pryder hefyd gan rai athrawon y gallai fod yn well gan ddisgyblion ddysgu iaith dramor nag astudio Cymraeg ac y gallai hyn gael effaith negyddol ar y Gymraeg.

Llwyddiant y ddarpariaeth ITM o ran sicrhau bod pob disgybl yn cyfrannu hyd eithaf ei allu

6.41 Gofynnwyd i staff yr ysgolion a oedd y ddarpariaeth ITM yn llwyddiant o ran cael gan bob disgybl gyfrannu (tabl 6.16). Dywedodd dros 90% ei bod. Mae tabl 6.17 yn dangos bod y staff yn gweld hyder cynyddol wrth ddysgu iaith fel y brif dystiolaeth o gael gan ddisgyblion gyfanogi ac roedd cysylltiad rhwng hyn â'r blas a gaent ar y profiad. Ategid yr ymateb gan ddisgyblion a ddywedodd, gydag ychydig iawn o eithriadau, eu bod yn cael blas gwirioneddol ar wesi ITM yn yr ysgol gynradd.

Tabl 6.16: A yw'r ddarpariaeth ITM wedi sicrhau cyfanogiad pob disgybl

	Ydi %	Nac ydi %
Staff	91	9

Tabl 6.17: barn gyffredinol y staff an y manteision i'r disgyblion

	Hyder %	Cael blas %	Cynnydd %
Staff	83	8	9

6.42 Mae tabl 6.18 yn dangos bod dros 90% o'r holl rieni yn dweud bod eu plant yn cael blas ar ddysgu iaith dramor. Ychydig o amrywiad oedd ar draws y ddau arolwg o rieni o ran y gyfradd uchel hon, er bod newid arwyddocaol yn y golofn cytuno'n gryf gyda rhieni CA3. Mae'n debyg fod hyn oherwydd bod eu plant yn hŷn (roedd gan 48% o'r rhieni a ymatebodd i'r ail arolwg blentyn ym mlwyddyn 8 neu 9 ond nid oedd yr arolwg cyntaf ond yn cynnwys disgyblion blwyddyn 7). Roedd rhieni merched ychydig yn fwy tebyg o ddweud bod eu plentyn yn cael blas ar y dysgu na rhai bechgyn.

Tabl 6.18: Mae fy mhlentyn yn cael blas ar ddysgu ITM – yn ôl rhyw ac oedran

	Cytuno'n gryf -%		Cytuno -%		Ddim yn gwybod -%		Anghytuno-%	
	2005	2006	2005	2006	2005	2006	2005	2006
Rhieni ysgol gynradd								
- i ferched	52	49	45	44	0	2	3	3
- i fechgyn	41	39	50	50	5	4	4	6
Rhieni ysgol uwchradd								
- i ferched	54	28	39	63	3	3	2	6
- i fechgyn	48	20	41	71	6	6	3	3

Bechgyn

6.43 Ar lefel ysgol gynradd dywedai'r staff yn aml fod mater rhyw yn llai hanfodol. Gan ei bod hi'n gyffredin i fechgyn fod mor frwdfrydig â merched ynghylch gwaith y dosbarth. Dyma hefyd oedd canfyddiad yr ymgynghori â'r disgyblion ac ymatebion y rhieni.

Tabl 6.19: barn gyffredinol staff o ran cyfranogiad bechgyn

	Cadarnhaol %	Negyddol/Merched yn well %	Ddim yn gwybod %
Staff	93	5	2

Anghenion arbennig

6.44 Holwyd staff yr ysgolion hefyd i ba raddau roedd y prosiect wedi gallu cael gan ddisgyblion ag anghenion arbennig gyfrannu. Roedd un clwstwr yn cynnwys ysgol anghenion arbennig ac roedd gan nifer o ysgolion eraill unedau anghenion arbennig, yn ogystal â bod â disgyblion gydag anghenion arbennig ysgafn yn y dosbarthiadau prif ffrwd. Roedd tystiolaeth o gyfranogiad cynyddol gan ddisgyblion anghenion arbennig wrth i'r prosiect arbrofol fynd yn ei flaen, gyda staff o 8 ysgol yn sôn am gynhwysiad ychwanegol pan ofynnwyd iddynt beth oedd wedi newid yn ystod blwyddyn ola'r prosiect. Roedd un ysgol yn ymwneud llai oherwydd pwysau'r amserlen ac roedd un arall wedi cynnwys disgyblion gydag anableddau corfforol yn llwyddiannus am y tro cyntaf. Drwodd a thro roedd ymateb cadarnhaol dros ben gyda 83% o'r staff yn nodi bod disgyblion anghenion arbennig ar eu hennill o'r prosiect arbrofol.

Tabl 6.20: barn gyffredinol y staff am gynnwys AAA

	Cadarnhaol %	Negyddol %
Staff	83	17

6.45 Roedd tua thri chwarter yn fras o'r rhai a deimlai y gallai bod gan ITM effaith negyddol ar ddisgyblion ag anghenion arbennig yn sôn am ddisgyblion ag anhawsterau dysgu eithafol ganddynt. Dywedwyd ganddynt fod amrywiad mawr o allu a bod rhai yn ymateb yn gadarnhaol ond nad oedd ymdrechion i integreiddio disgyblion ddim wedi bod yn llwyddiant bob tro oherwydd yr angen am gefnogaeth ychwanegol. Dywedodd 76% o'r rhai a wnaeth sylwadau fod disgyblion gydag anghenion arbennig wedi eu hintegreiddio yn y dosbarth ITM yn llwyddiannus a dywedodd 22% fod y disgyblion hyn yn cael gwaith ymdopi. Dywedodd 6 o rieni fod ganddynt bryderon fod y plentyn oedd ganddynt hwy ag anghenion arbennig dan anfantais neu ar eu colled trwy'r prosiect arbrofol.

6.46 Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o blant o allu isel yn cymryd rhan fywiog iawn yn y gwersi a chafodd y clorianwyr nifer o enghreifftiau o sut roedd y canolbwyntio ar sgiliau gwrando a siarad o les i blant â'u llythrennedd yn wael.

6.47 Pwysleisiwyd yr angen am gynllunio dilyniant da ar gyfer gwaith llwyddiannus gyda disgyblion anghenion arbennig fel a ddangosir gan un enghraifft a roddwyd i'r clorianwyr. Roedd bachgen ifanc gydag anghenion arbennig ysgafn wedi dod yn ei flaen yn dda yn y gwersi ITM yn yr ysgol gynradd, ac wedi cael cefnogaeth gref a brwd gan ei dad. Fodd bynnag, pan aeth yn ei flaen i'r ysgol uwchradd roedd ei raddau cyffredinol isel yn golygu na chât ddal ati gydag astudio iaith (gweler canfyddiadau Estyn).

7. Yr Effaith ar Ysgolion

Canfyddiadau allweddol:
Roedd ysgolion yn gwneud cais i ymuno â'r cynllun naill ai am fod ganddynt ddiddordeb yn barod mewn ITM neu waith Ewropeaidd neu'n rhan o glwstwr ble roedd hynny'n wir am yr ysgol oedd yn arwain.

Roedd tystiolaeth fod gan lawer o athrawon lefel uchel o ymrwymiad at y prosiect a'i lwyddiant. Roedd hyn yn gryfder allweddol yn y prosiect ond gallai fod yn wendid hefyd os oedd y gwaith yn dechrau dibynnu ar eu brwdfrydedd a'u harweiniad, ac roeddent hwythau wedyn, am ba reswm bynnag, yn gadael.

Roedd rhieni a llywodraethwyr ysgolion yn frwd ynghylch y prosiect ac roedd hyn yn gymhelliad i'r ysgolion gymryd rhan. Dywedodd 80% o staff yr ysgolion fod y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol gan gynnwys datblygu staff a chlystyrau cryfach.

Nid oedd bron hanner yr ysgolion yn y prosiect arbrofol yn gallu nodi unrhyw anhawsterau wrth gyflwyno'r prosiect. Ble roedd problemau achosid hwy gan amlaf gan bwysau ar gwricwlwn yr ysgol gynradd, diffyg amser staff a chlystyrau anghyflawn.

Dywedodd 89% o'r ysgolion fod y cyllid oedd ar gael ar gyfer y prosiectau arbrofol wedi talu eu costau. Y gost bennaf oedd talu am addysgu arbenigol. Roedd costau hefyd ynglŷn â chyfarfodydd clwstwr a sesiynau datblygu staff a chyda phrynu adnoddau.

Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gynaliadwy, dywedodd staff yr ysgolion fod angen cael brwdfrydedd gan yr athrawon, cysondeb a bod athrawon arbenigol ar gael. Nododd rhieni hefyd yr angen am gynllunio dilyniant a dywedodd dros 80% o staff yr ysgolion ei bod hi'n bwysig cael clwstwr llawn er mwyn cynnal y fantais ddysgu hon.

Roedd cyfraniad CILT Cymru a'r rhan ddatblygol a chwaraeid ganddo yn cael ei werthfawrogi. Roedd y rhan a chwaraeai'r corff hwn yn darparu hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd yn cael ei werthfawrogi yn ogystal â'r cymorth a geid ganddynt wrth ddatrys problemau ac anhawsterau. Roedd CILT Cymru yn cael eu gweld yn cynorthwyo gyda phroblemau clystyrau a rheoli'r cyllido.

Ymuno â'r prosiect arbrofol

7.1 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros ymuno â'r prosiect arbrofol oedd bod yr ysgol yn aelod o glwstwr a oedd eisoes yn bod (50 o'r ymatebion – 51% o'r cyfan. Am fod ysgolion yn gallu nodi mwy nag un rheswm, mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy na 100%) a bod y penderfyniad wedi ei wneud yn barod gan rywun arall yn y clwstwr.

7.2 Dywedodd 30% o staff yr ysgolion mai'r cymhelliad, yn rhannol, dros ymuno â'r proiect arbrofol oedd bod yna ymwneud neu ymrwymiad o flaen llaw gyda hyrwyddo diwylliant rhyngwladol neu Ewropeaidd yn yr ysgol. Roedd a wnelo 15% o'r ysgolion cynradd yn barod â rhyw ffurf ar ddarpariaeth ITM. Fodd bynnag, nid oedd hi'n ymddangos bod cael diddordeb mewn darparu ITM a chysylltiadau diwylliannol gyda gwledydd eraill yn ddigon i annog cymryd rhan. Roedd wyth ysgol a gyfwelwyd gan y clorianwyr yn aelodau o glystyrau'r prosiect ond nid oeddynt wedi ymuno â'r prosiect arbrofol er bod ganddynt gysylltiadau ITM neu ryngwladol yn barod.

7.3 Dywedodd 29% o staff yr ysgolion fod eu hysgol wedi ymuno â'r prosiect arbrofol oherwydd brwdfrydedd unigolyn yn yr ysgol neu'r clwstwr. Ystyrid yr unigolion hyn fel rhai a gymerai arnynt eu hunain lawer o'r gwaith i ddatblygu'r prosiect ac a weithiai i ysbrydoli eu cydweithwyr. Yn aml iawn, golygai hyn ddatrys rhai o'r problemau oedd wedi codi drwy'r prosiect arbrofol, yn enwedig gwastatu problemau gyda chydweithwyr.

7.4 Ymysg y rhesymau eraill a roddwyd dros ymuno â'r prosiect arbrofol oedd ethos datblygu ysgol a anogai fentrau addysgol newydd, diddordeb mewn cysylltiadau trosglwyddo, cred fod ieithoedd yn cael eu dysgu yn fwyaf effeithiol pan fo plant yn ifanc a chysylltiadau a oedd yn bod eisoes gyda CILT Cymru.

Dull blaengar o fynd ati

7.5 Roedd ysgolion yn aml yn ymhel â gweithgareddau eraill er mwyn ehangu a gwella'r ddarpariaeth sydd ganddynt. Roedd un clwstwr, er enghraifft, yn mynd â disgyblion i'r ysgol uwchradd am wersi mewn pum maes pwnc, ac roedd ITM yn un ohonynt. Mae clwstwr arall dan arweiniad ysgol gyfun wedi ffurfio tîm trosglwyddo, yn canobwyntio ar lythrennedd, ac ar yr un pryd wedi datblygu'r prosiect hwn ac wedi gosod y prosiect oddi mewn i waith y tîm hwnnw. Mewn achosion o'r fath, roedd ymwneud â'r prosiect arbrofol hwn yn cael ei weld yn rhan o starategaeth ddatblygu gyfan. Mae tabl 6.10 yn dangos bod dros hanner yr athrawon a gyfwelwyd yn pwysleisio'r effaith gadarnhaol mae'r prosiect wedi cael ar gysylltiadau trosglwyddo.

Ethos Ewropeaidd

7.6 Roedd ethos Ewropeaidd a oedd yn bod yn barod yn yr ysgol neu awydd i hyrwyddo rhyngwladoldeb yn gallu gweithio i annog ysgolion i sefydlu'r ddarpariaeth ITM trwy weithgareddau ystafell ddosbarth neu allgwricwlaidd eraill. Roedd 12% o'r ysgolion cynradd wrthi, neu wedi bod, ynglŷn â datblygu cysylltiadau gydag ysgolion mewn gwledydd eraill yn Ewrop. Roedd 18 o'r rhai a gyfwelwyd yn nodi'n benodol fod rhieni a llywodraethwyr ysgolion yn enwedig yn croesawu'r prosiect arbrofol oherwydd y gallu oedd ynddo i helaethu dealltwriaeth y plant am Ewrop. (gweler ymatebion rhieni hefyd).

Rwy'n teimlo ei bod hi'n bwysig dros ben fod plant yn dysgu ieithoedd Ewropeaidd mor gynnar â phosibl. Rwy'n meddwl ein bod ni ymhell ar ôl gweddill Ewrop gyda dysgu/siarad ieithoedd. Mae'n wirioneddol bwysig ar gyfer busnes, gwyliau a dealltwriaeth gyffredinol o ddiwylliannau eraill.

Dylai plant Prydain gael eu hannog i siarad ieithoedd eraill Erwop neu fe gânt eu gadael ar ôl gwledydd eraill yr UE. Mae pobl ifanc yn yr UE yn llawer mwy rhugl eu Saesneg mewn oed cynharach na phlant y DU.

Mae'r byd yn newid yn gyflym ac mae angen i'n plant gael eu harfogi.

Mae ieithoedd yn gam cyntaf at ddeall ein gilydd – yn chwalu rhwystrau diwylliannol/ethnig. .
(sylwadau rhieni)

Yn yr arolwg cyntaf o rieni ychwanegodd dros 120 o rieni sylwadau at eu hymatebion i'r holiadur a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd rhoi dealltwriaeth o Ewrop i'w plentyn ac roedd 52 ohonynt yn gweld dysgu iaith yn bwysig oherwydd y tebygrwydd y byddai eu plentyn yn gweithio mewn gwlad arall yn Ewrop yn y dyfodol. Roedd ymateb cefnogol cryf tebyg gan rieni yn yr ail arolwg.

7.7 Dywedodd 52% o staff yr ysgolion fod gweithgareddau allgwricwlaidd wedi cael eu datblygu i ehangu dealltwriaeth y disgyblion o'r wlad yr oeddynt yn dysgu ei hiaith. Ymysg y rhain oedd blasu bwyd a diod, meithrin 'ffrindiau gohebu' a chysylltiadau e-bost gydag ysgolion dramor a chynnal 'clybiau' amser cinio. Roedd un ysgol, fodd bynnag, yn nodi bod un clwb iaith ar-ôl-yr-ysgol a oedd eisoes yn bod wedi dioddef am fod y rhieni wedyn yn ystyried bod y ddarpariaeth yn y dosbarth wedi cymryd drosodd.

Cyfle addysgol

7.8 Nododd 39% o staff yr ysgolion fod y prosiect yn cynnig cyfle addysgol arwyddocaol. Roedd penaethiaid, yn enwedig, yn gweld cymryd rhan yn y prosiect arbrofol yn enghraifft o arfer da ym myd addysg. Er dweud yn aml fod cwricwlwm yr ysgol gynradd yn llawn dros ben yn barod câi'r prosiect hwn ei werthfawrogi oherwydd y rhyddid y tybir ei fod yn ei gynnig i athrawon weithio'n greadigol. Soniai'r athrawon eu bod yn mwynhau cymryd rhan, a sut roedd wedi cynnig lle iddynt ymestyn eu sgiliau a chael pleser wrth weithio mewn ffordd heb bwysau gyda phlant.

7.9 Dywedodd 30% o staff yr ysgolion uwchradd fod y prosiect wedi cynnig statws newydd neu well i ITM yn yr ysgol. Dywedodd 23% ei fod yn hwyl i'r disgyblion a'i fod yn rhoi hyder wrth ddysgu.

A yw cyflwyno dysgu ITM trwy'r prosiectau arbrofol wedi cael unrhyw effeithiau andwyol neu wedi creu pwysau ychwanegol ar ysgolion, staff a disgyblion?

7.10 Ceisiai'r gwaith cloriannu nodi a oedd cymryd rhan yn y prosiect arbrofol wedi cael unrhyw effeithiau andwyol neu wedi creu pwysau ychwanegol ar ysgolion. Dywedodd bron hanner staff yr ysgolion a ymatebodd nad oeddynt yn gallu nodi unrhyw anhawsterau o gwbl gan ddatgan bodlonrwydd cyffredinol ar y ffordd roedd y prosiect arbrofol yn gweithio (tabl 7.1).

Tabl 7.1: unrhyw anhawsterau wrth gyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 - % ymatebion

Ymatebydd	Oedd	Nac oedd
Penaethiaid	56	43
Athrawon (eraill)	50	50

7.11 Newidiodd y pwyslais ar y ddau faes problemus allweddol wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen. Yn y dechrau roedd staff yn fwyaf tebygol o ddweud mai diffyg amser a chwricwlwm ysgol gynradd gorlawn oedd y broblem allweddol. (39% o'r ymatebion yn ail flwyddyn y prosiect arbrofol; 12% o ymatebion yn y drydedd flwyddyn). Erbyn trydedd flwyddyn y prosiect arbrofol y pwnc a godai amlaf (24% o'r ymatebion yn y drydedd flwyddyn; 19% yn yr ail flwyddyn) oedd y pwysau ychwanegol ar staff gyda'r prosiect yn cael ei weld yn dibynnu yn aml ar ewyllys da a brwdfrydedd unigolion. Roedd y broblem i'w gweld yn codi'n bennaf oherwydd diffyg amser oddi mewn i'r diwrnod ysgol gan arwain at staff yn rhoi o'u hamser eu hunain i sicrhau ei fod yn gweithio. Roedd hyn yn amrywio o athrawon ar eu hamser cinio yn teithio i ysgolion y clwstwr i roi gwers at athrawon yn y clwstwr yn cyfarfod yn eu hamser eu hunain at athrawon yn ymgymryd â hyfforddiant yn eu hamser eu hunain.

'Rwy'n treulio f'amser fy hun yn ymweld ag ysgolion cynradd. Rwy'n cael blas arno, ond nid wyf i'n cael tâl am yr amser.'(sylw athro)

Er bod hyn yn cael ei weld yn gefnogaeth gref i ymrwymiad y staff i'r prosiect, roedd yn cael ei weld yn wendid hefyd. Ni ellid disgwyl y fath ymrwymiad gan holl aelodau'r staff a phan fyddai'r aelod allweddol o'r staff, am ba reswm bynnag, heb fod yn yr ysgol, gallai greu anhawsterau. Roedd enghreifftiau o broblemau yn codi pan oedd staff wedi gadael, wedi bod yn sâl neu wedi mynd ar gyfnod mamolaeth a'r cydweithwyr a oedd yn gorfod cymryd drosodd yn cael y dasg yn faich arnynt.

7.12 Disgrifiwyd yr anhawster o gael lle i'r ddarpariaeth ITM ar gwricwlwm prysur ac, mewn ambell achos, roedd hyn yn cyfyngu ar waith atgyfnerthu yn dilyn y gwersi, ac mewn eraill, yn rhwystro mwy nag un grŵp blwyddyn rhag cymryd rhan yn y ddarpariaeth. Roedd pryder hefyd fod pynciau eraill, Cymraeg a Saesneg yn enwedig, yn colli amser. Yn yr arolwg cyntaf o rieni ychwanegodd 3% (29) o rieni sylwadau at eu hymatebion i'r holiadur am eu pryderon y gallai'r ddarpariaeth ITM fod yn cael effaith andwyol ar addysgu pynciau craidd yn yr ysgolion cynradd. Roedd yr ail holiadur i rieni yn archwilio'r mater hwn yn fwy manwl a chafwyd nad oedd yn bryder cyffredinol ac nad oedd ar draws 80% o rieni sigyblion CA2 a CA3 am weld pynciau craidd yn cael blaenoriaeth dros addysgu ITM.

Tabl 7.2: Byddai'n well treulio'r amser a roddir ar ddysgu iaith dramor yn dysgu pynciau craidd

	Cytuno'n gryf -%	Cytuno-%	Ddim yn gwybod -%	Anghytuno -%	Anghytuno'n gryf -%
Rhieni ysgolion cynradd	2	4	12	59	20
Rhieni ysgolion uwchradd	1	4	14	58	22

7.13 Roedd 6% o staff yr ysgolion a ymatebodd yn nodi problem gyda dosbarthiadau oedrannau cymysg mewn ysgolion cynradd. Roedd rhai ysgolion a gymerai ran yn y prosiect arbrofol yn eithriadol o fychan a gall dosbarth gynnwys ystod o grwpiau blwyddyn. Hyd yn oed yn yr ysgolion mwy, roedd hi'n gyffredin cael grwpiau blwyddyn wedi cymysgu. Ystyrid bod hyn yn creu problem ble roedd y gwaith yn canolbwyntio ar ddod â disgyblion blwyddyn 6 at safle neilltuol yn eu datblygiad iaith fel bod dilyniant i flwyddyn 7 yn cael ei hwyluso. Er mwyn osgoi i ddisgyblion ym mlwyddyn 5 ailadrodd gwaith blwyddyn roedd dosbarthiadau weithiau yn cael eu rhannu ar gyfer gwersi ITM. Roedd gan hyn oblygiad ar gyfer gwaith atgyfnerthu yn ystod yr wythnos gan y gallai olygu na allai'r athro dosbarth eistedd yn y wers.

7.14 Dywedodd nifer fechan o staff yr ysgolion (6%) fod problemau yn codi ar adeg trosglwyddo oherwydd rhan-glystyrau. Roedd athrawon ysgolion uwchradd yn gorfod rheoli dosbarthiadau ble roedd rhai disgyblion wedi cymryd rhan yn y prosiect ac eraill heb wneud hynny. Yr anhawsterau a godai o hyn oedd naill ai disgyblion yn amharod i fynd dros ddeunydd roeddynt yn teimlo eu bod yn ei wybod yn barod, neu ddod o hyd i'r amser a'r prosesau i ddod â disgyblion na fu ar y prosiect i fyny at lefel gyffredin.

7.15 Cyfeiriodd nifer fechan o staff (2%) at anhawsterau gyda chael a threfnu cyllid.

Costau a manteision y ddarpariaeth a wneir yn yr ysgolion a'r graddau y telir y costau hyn gan y cyllid ychwanegol sydd ar gael

Costau

7.16 Roedd costau amrywiol ar yr ysgol gan ddibynnu ar sut roedd cyflwyno'r prosiect wedi cael ei drefnu. Cafodd pob ysgol gyllid i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant o dan CILT Cymru a rhoddwyd cyllid i'r ysgolion cynradd i dalu am amser addysgu arbenigol. Roedd amrywiadau yn sut roedd yr ysgolion yn cael gafael ar gyllid, gyda rhai yn cael cyllid cyfatebol gan yr awdurdodau lleol a rhai heb gael hynny. Holwyd yr ysgolion a oedd y cyllid yn talu eu costau a dywedodd 89% ei fod. Roedd peth amrywio o ysgolion a nodai bod y prosiect arbrofol wedi ei gyllido'n hael iawn at eraill a ddywedai nad oeddent wedi cael dim cyllid trwy eu trefniant clwstwr o gwbl ac wedi gorfod llyncu'r holl gostau ychwanegol neu godi arian eu hunain.

7.17 Y prif ddefnydd ar y cyllid oedd talu am amser addysgu pan oedd yr addysgu yn cael ei gyflwyno gan athrawon ysgol y tu allan i'r cynradd megis athrawon ysgolion uwchradd neu baripatetig. Roedd 36% o'r ymatebwyr wedi cael cyllid trwy'r clwstwr i brynu adnoddau perthnasol i ITM ar gyfer yr ysgol ac roedd 9% wedi datblygu eu hadnoddau eu hunain (yn cynnwys datblygu llyfrau gwaith).

7.18 Canfu'r gwaith cloriannu amrywiad arwyddocaol rhwng y mwyafrif o ysgolion a ddywedodd na fyddent yn gallu cynnal darpariaeth ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 heb y cyllid ychwanegol a gafwyd gan y prosiect

arbrofol, a nifer fechan o ysgolion oedd wedi bod ynglŷn â pheth darpariaeth ITM cyn y prosiect arbrofol ac a ddywedodd yn eglur eu bod am barhau, cyllid neu beidio. Dywedwyd wrth y clorianwyr hefyd fod rhai clystyrau a oedd wedi wedi tendro'n aflwyddiannus i gael eu cynnwys yn y prosiect arbrofol wedi dweud yr aent yn eu blaenau beth bynnag. Roedd gan chwech o'r wyth ysgol y tu allan i'r prosiect a oedd yn rhan o'r cloriannu ryw ffurf ar ddarpariaeth ITM, yn amrywio o glybiau ar-ôl-yr-ysgol i athrawon yn ymweld o'r ysgol uwchradd.

Manteision i'r ysgolion

7.19 Holwyd yr ysgolion a oedd manteison wedi bod o fod yn rhan o'r prosiect. Dywedodd y rhan fwyaf o staff yr ysgolion fod y ddarpariaeth ITM wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hysgol.

Tabl 7.2: effaith y prosiect ar yr ysgol - % ymatebion

Ymatebydd	Cadarnhac	Niwtral	Negyddol	Ddim y gwybod
Penaethiaid	83	10	2	5
Athrawon (eraill)	78	8	4	10

Dywedodd hanner y rhain mai un fantais allweddol oedd brwdfrydedd y rhieni dros y prosiect. Roedd cymryd rhan yn y prosiect yn dod â bri ac yn cael ei weld yn boblogaidd gyda llywodraethwyr.

Cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd

7.20 Dywedodd 73% o'r staff a wnaeth sylwadau ar effaith y prosiect arbrofol ITM ar ddiwylliant ac ethos yr ysgol ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu neu gryfhau partneriaethau ysgolion cynradd/uwchradd. Rhoddodd staff sylwadau ar werth hyn mewn tri maes craidd:

- Roedd y partneriaethau gwell yn cael eu gweld yn cael effaith ar arddulliau addysgu. Dywedodd 44% o'r ysgolion fod cydweithio ar arddulliau addysgu rhwng partneriaid cynradd ac uwchradd yn y clwstwr. Roedd staff ysgolion cynradd, yn enwedig, yn falch pan oedd cydweithwyr yn yr ysgol uwchradd yn amlwg yn dysgu oddi wrth waith yr ysgol gynradd.

- Roedd tystiolaeth hefyd fod y partneriaetahau gwell yn effeithio ar ddatblygu'r cwricwlwm. Yn neilltuol roedd enghreifftiau o waith yn cael ei wneud i gysylltu cwricwlwm yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel bod disgyblion yn gallu cael dilyniant wrth newid o'r naill ysgol i'r llall.

- Roedd tystiolaeth fod athrawon cynradd ac uwchradd yn teimlo eu bod wedi ennill gwell dealltwriaeth o waith y naill a'r llall. Roedd athrawon yn amlwg yn gwerthfawrogi hyn, er ei bod hi'n anos nodi'r union fantesion a lifai o'r datblygiad. Mae'n ymddangos i'r effaith fod yn y ffordd mae gwell dealltwriaeth o waith y naill a'r llall wedi cryfhau perthynas a chysylltiadau, sydd wedi gwneud problemau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, er enghraifft, yn haws i'w datrys.

Datblygu staff

7.21 Nododd 56% o staff yr ysgolion a wnaeth ymateb fantais o ran datblygu staff oddi wrth y prosiect arbrofol. Gallai hyn fod yn cynnwys mynychu cyrsiau ITM, ond roedd hefyd, fel a nodwyd yn gynharach, yn cael ei weld yn ganlyniad arsylwi ar wersi cydweithwyr ac adeiladu cysylltiadau rhwng ysgolion uwchradd a chynradd ar draws y clwstwr. Roedd athrawon ysgolion cynradd nad oedd ganddynt Gymraeg ond a oedd yn addysgu Cymraeg yn rhoi sylw'n aml ar sut oedd eu profiad yn y prosiect wedi cynorthwyo eu dull o addysgu Cymraeg. Yr ymateb hwn yn rhannol a arweiniodd at y pwyslais ar werth cael arbenigwr iaith yn cynnal y wers.

7.22 Dywedodd dros 70% o staff yr ysgolion fod y prosiect arbrofol wedi cael effaith gadarnhaol ar y clwstwr ysgol cynradd/uwchradd. Dywedwyd ei fod wedi gwella cyfathrebu oddi mewn i'r clwstwr, wedi cefnogi datblygu a rhannu adnoddau newydd ac wedi cynorthwyo i godi cysylltiadau rhwng y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd. Gwelid gwerth neilltuol mewn cael ysgolion yn dod at ei gilydd ar gyfer gwaith cwricwlwm, ac ar gyfer ambell ysgol, ITM oedd eu profiad cyntaf o gysylltiadau trosglwyddo ar sail y cwricwlwm.

Datblygu'r ysgolion

7.23 Soniodd 38% o staff yr ysgolion a ymatebodd am ran y prosiect mewn datblygu'r ysgolion. Roedd yr effaith hon yn amrywio o ysgolion cynradd a oedd yn cystadlu am ddisgyblion, a oedd yn nodi bod cymryd rhan yn y prosiect yn annog rhieni i anfon eu plant iddynt, at ysgolion a oedd yn gweithio i feithrin ethos aml-ddiwylliannol. Disgrifiodd un ysgol, er enghraifft, sut roeddynt o ganlyniad i'r prosiect wedi ailysgrifennu eu Datganiad Cenhadaeth.

Datblygu'r disgyblion

7.24 Nododd 45% o'r ymatebwyr ddatblygu'r disgyblion yn fantais allweddol i'w hysgol wrth gymryd rhan yn y prosiect arbrofol. Roedd staff yn falch o gael gweld gymaint mwy roedd eu disgyblion yn cael blas ar yr addysgu ITM ac yn elwa arno ac roedd hyd yn oed athrawon a oedd yn amheus o'r manteision tymor hir yn gadarnhaol dros ben ynghylch y profiadau a gâi'r disgyblion.

Y potensial i ddulliau cyflwyno gwahanol ddod yn gynaliadwy ar gyfer defnydd ehangach

7.25 Beth bynnag oedd y dull cyflwyno, dywedwyd mai brwdfrydedd yr athrawon unigol oedd yn hanfodol i lwyddiant y prosiect. Nododd dros 50% o staff yr ysgolion fod dull yr athro unigol yn hanfodol i effaith y prosiect. Ond roedd y gwaith cloriannu hefyd yn dangos bod newidiadau yn y staff addysgu yn fawr. Dywedodd dros chwarter y staff a gyfwelwyd yng ngham ola'r gwaith cloriannu fod newid wedi bod ymysg y personel a oedd ynglŷn â chyflwyno'r prosiect yn y flwyddyn a oedd wedi mynd heibio.

> *Cafodd blwyddyn 7 dri athro gwahanol eleni, ac felly collwyd parhad oherwydd newid aml ar y staff.*(sylw athro)

7.26 Mae cryfder y prosiect yn adnabod a harneisio brwdfrydedd athrawon unigol yn elfen allweddol ond gall fod yn arwydd hefyd o wendid yn ei gynaliadwyedd ac wrth hyrwyddo mwy o gymryd rhan. Ni ellir rhagdybio bod ym mhob ysgol athro ag ymrwymiad gwirioneddol at ITM. Roedd gan gyfran arwyddocaol o'r ysgolion a gymerai ran yn y prosiect arbrofol ran yn barod mewn rhyw ffurf ar weithagredd rhyngwladol neu ITM ac mae'n debyg mai'r rhain fyddai wedi cael eu denu fwyaf at y prosiect arbrofol. Os yw darpariaeth y prosiect i gael ei ehangu byddai angen cynnwys y rhai heb ymrwymiad a hyd yn oed y rhai gwrthwynebus.

Mae'r athro a oedd wrthi o'r blaen wrthi lai eleni oherwydd newidadau yn yr amserlen. Mae hyn wedi bod yn broblematig gan nad oes gan yr athrawon eraill gymaint o ddiddordeb. Rydym wrthi'n newid pethau ond mae llwyddiant yn dibynnu ar athrawon unigol. (sylw athro)

7.27 Gofynnwyd i staff yr ysgolion beth yn eu barn hwy oedd y rhwystrau allweddol i safoni'r ddarpariaeth ar CA2 a'r angen am athrawon arbenigol oedd yr un a godwyd amlaf.

Tabl 7.3: rhwystrau allweddol i'r ddarpariaeth ar CA2? - % ymatebion

Mater a godwyd	% staff yr ysgolion y codi'r mater
Diffyg athrawon arbenigol	44
Diffyg cyllid ac adnoddau	26
Dibynnu ar frwdfrydedd athro unigol	15
Diffyg amser	15

7.28 Roedd teimlad cryf y byddai angen buddsoddiad arwyddocaol mewn hyfforddiant i athrawon ysgolion cynradd i ddatblygu eu sgiliau at y man y gallent gyflwyno trydedd iaith. Fel arall, dywedai staff fod angen cyllid i gefnogi darpariaeth arbenigol drwy gael athrawon ysgolion uwchradd yn ymweld â'r ysgolion cynradd, rhywbeth a oedd yn cael ei weld yn gymorth i drosglwyddo, neu drwy athrawon peripatetig yn cyflwyno i glystyrau cyfan.

Y gefnogaeth a roddwyd i'r ysgolion gan CILT Cymru

7.29 Yn ystod y cam cloriannu cyntaf roedd 44% o benaethiaid a dirprwyon a 56% o athrawon dosbarth yn ystyried y gefnogaeth a gafwyd gan CILT Cymru yn dda neu'n dda iawn. Yn aml nid oedd a wnelo'r Penaethiaid yn uniongyrchol â chyflwyno'r prosiect, ac o'r herwydd roeddynt yn llai tebyg o fod yn gwybod am ran CILT Cymru (tabl 7.4). Wrth i'r prosiect arbrofol fynd yn ei flaen roedd pobl yn mynd hyd yn oed yn fwy cadarnhaol ac yn yr ail gam roedd 66% o staff yr ysgolion yn gwneud sylwadau cadarnhaol am yr hyfforddi a'r cyngor ar addysgu a'r adnoddau a geid, neu a ddangosid, gan CILT Cymru. Disgrifid CILT Cymru hefyd yn fendithiol i weithredu'r clwstwr gan dros 13% o'r staff. Roedd enghreifftiau hefyd o sut oedd CILT Cymru wedi bod o gymorth wrth ddatrys pethau pan godai anhawsterau yn yr ysgolion. Roedd y rhan a chwaraeai CILT Cymru wrth reoli'r cyllid ar gyfer y prosiect hefyd yn cael ei werthfawrogi gan ysgolion y prosiect arbrofol.

Tabl 7.4: Barn Penaethiaid & Dirprwyon am CILT Cymru (2005)

	Da iawn %	Da %	Ddim yn dda %	Ddim yn gwybod %
Staff	22	24	8	45

Tabl 7.5: Barn Athrawon Dosbarth am gymorth CILT Cymru (2005)

	Da iawn %	Da %	Ddim yn dda %	Ddim yn gwybod %
Staff	26	30	4	39

7.30 Mae tabl 7.5 uchod yn darlunio'r ffaith nad oedd llawer o athrawon dosbarth naill ai'n gwybod pwy yw CILT Cymru neu'n gwybod beth maent yn ei wneud. Fodd bynnag, byddent yn ymwybodol o'r unigolyn sy'n gweithio drostynt hwy ac yn eu canmol yn unigol.

7.31 Roedd ymatebion negyddol ynghylch CILT Cymru yn rhai ynghylch materion amser, gyda staff yn dweud nad oedd ganddynt amser yn aml i ddarllen y deunydd a anofonid atynt, er bod yr ymateb drwodd a thro i'r deunyddiau yn dda. Roedd barn hefyd fod modd ymdrin oddi mewn i'r clwstwr â llawer o'r materion a godai ynghylch datblygu'r prosiect ac nad oedd dim angen cyfraniad CILT Cymru mewn gwirionedd ond pan oedd problemau yn y clwstwr ei hun. Pan oedd staff wedi cael achos i alw yn benodol ar CILT Cymru am gymorth i ddatrys problem, roeddynt yn llawer mwy tebygol o werthfawrogi'r rhan a chwaraeai CILT Cymru.

7.32 Roedd lefel gymharol uchel o ddihidrwydd at gyfarfodydd a hyfforddiant yn rhannol am fod llawer o'r ysgolion yn y prosiect yn dibynnu ar ddarpariaeth o'r tu allan, ac ar ôl y cyfarfod cyntaf nid oeddynt yn gweld diben cael cyfarfodydd rheolaidd am fod y ddarpariaeth yn gweithio. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd ymateb cadarnhaol uwch i'r deunyddiau a ddosberthid gan CILT Cymru gyda 78% o'r staff a roddodd sylw yn dweud eu bod yn cael y deunyddiau o fudd. Mae'r cloriannu gan athrawon ar y cynadleddau canolog blynyddol a gynhelir gan CILT Cymru wedi bod bron yn gyfangwbl gadarnhaol. Roedd athrawon o ysgolion cynradd ac uwchradd yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi technegau dysgu a ddangosid iddynt ac y gallant eu defnyddio mewn meysydd addysgu eraill ar wahân i ITM.

Tabl 7.6: barn am ddeunyddiau CILT Cymru sydd ar gael

	Cadarnhaol %	Negyddol %	Niwtral%
Staff	78	11	11

7.33 Roedd y gwaith cloriannu yn canfod lefel uchel o newid staff yn yr ysgolion a gymerai ran yn y prosiect arbrofol. Golygai hyn fod penaethiaid ac athrawon dosbarth a oedd wedi cael mewnbwn arwyddocaol gan CILT Cymru yn gynharach yn y prosiect naill ai wedi symud neu newid eu rôl a bod y rhai a gymerodd eu lle yn aml heb fod yn ymwybodol o rôl CILT Cymru nac yn glir

eu meddyliau amdani. Gallai hyn olygu nad ydynt yn gwneud defnydd llawn o'r gefnogaeth y gall CILT Cymru ei chynnig.

Cefnogaeth gan y clwstwr

7.34 Roedd ail gam y gwaith cloriannu yn canolbwyntio ar y rhan a chwaraeir gan fodel y clwstwr a'i heffeithiau. Roedd hi'n eglur fod athrawon a phenaethiaid yn gweld cael clwstwr llawn yn bwysig a chred y rhan fwyaf fod model y clwstwr yn bwysig i ansawdd y ddarpariaeth ITM.

Tabl 7.7: pwysigrwydd model y clwstwr - % ymatebion

	Pwysig		Ddim yn bwysig		Ddim yn gwybod	
	Pennaeth	Athro	Pennaeth	Athro	Pennaeth	Athro
Pwysigrwydd model y clwstwr i ansawdd darparu ITM yn yr ysgol	67	71	26	21	7	9
Gwerth cael clwstwr llawn i ddarparu ITM yn yr ysgol	83	81	17	8	0	11

7.35 Mewn 17 o'r ardaloedd a gymerai ran yn y prosiect arbrofol roedd y prosiect yn cael ei redeg trwy fodel clwstwr llawn neu arwyddocaol ble roedd pob un, neu'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yn cymryd rhan gyda'r ysgol uwchradd y mae mwyafrif eu disgyblion yn mynd yn eu blaenau iddi.

7.36 Roedd gwerth cael clwstwr llawn yn cael ei weld gan bawb o staff yr ysgolion fel y rhan oedd ganddo i'w chwarae gyda dilyniant a throsglwyddo. Nid oedd hi'n bosibl i'r ysgol uwchradd adeiladu ar ddysgu CA2 oni bai ei fod wedi cael ei wneud gan o leiaf fwyafrif arwyddocaol o'r disgyblion yn cychwyn ar CA3. Pan oedd disgyblion o'r fath yn lleiafrif yn y dosabrth roedd hyn yn cael ei weld yn creu anhawsterau gan eu bod yn rhwystredig o orfod ailadrodd gwaith, er bod mantais yn cael ei weld ar gyfer disgyblion o allu is drwy allu rhagori, ar y cychwyn o leiaf, mwn pwnc roeddynt eisoes wedi ei astudio.

7.37 Roedd model y clwstwr yn gefn i'r prosiect am ei fod yn cynnig i'r ysgolion fynediad at syniadau ac adnoddau wedi eu rhannu. Roedd 34% o staff yr ysgolion yn nodi pwysigrwydd cyfarfodydd clwstwr a'r cyfathrebu rhwng ysgolion i ansawdd y gwaith. Roedd bod yn rhan o'r clwstwr hefyd yn ysgogi cymhelliant a brwdfrydedd yn yr athrawon -

Er bod ansawdd y ddarpariaeth yn y bôn yn dibynnu ar yr athro uwchradd, mae brwdfrydedd y clwstwr yn annog gwell atgyfnerthu a chydweithio.(sylw athro)

7.38 Roedd athrawon yn disgrifio gweithio ar y cyd oddi mewn i'r clwstwr, yn cefnogi ei gilydd yn cynnal digwyddiadau a chlybiau, ac mae'r agwedd ymarferol hon ar y gefnogaeth a geir gan y clwstwr yn cael ei darlunio yn y mwy o bwysigrwydd a roddai athrawaon iddi na'r penaethiaid. Ble gwelai'r athrawon y clystyrau yn amhwysig roedd hynny naill ai oherwydd bod y clwstwr yn aneffeithiol, yn enwedig mewn achosion pan oedd yn glwstwr anghyflawn, neu eu bod yn dewis peidio â chymryd rhan. Roedd dros hanner y rhai nad oedd yn gweld y clwstwr yn bwysig, yn disgrifio'r ddarpariaeth ITM

yn eu hysgol fel dewis ar wahân yn cael ei gynnal gan rywun arall (hynny yw, athro arbenigol), ac felly'n amlwg heb fod a wnelo ddim â hwy.

7.39 Dywedodd cyfran fechan o'r ysgolion a gymerai ran (10%) fod y clwstwr wedi bod yn gryf iawn cyn y prosiect ac felly nad oedd y prosiect arbrofol wedi cael fawr o effaith. Dywedodd cyfran fechan o athrawon (4%) ac o Benaethiaid (3%) eu bod yn siomedig â'r lefel o gefnogaeth gan y clwstwr.

7.40 Roedd clystyrau yn aml yn cynnal cyfarfodydd yn ychwanegol at gyfarfodydd cefnogaeth CILT Cymru. Tueddai'r rhain i esgor ar adwaith mwy cadarnhaol na rhai CILT Cymru oherwydd fod ganddynt agenda ehangach, mae'n debyg, er eu bod yn aml yn sgil-gynnyrch uniongyrchol i'r prosiect ITM. Defnyddid y cyfarfodydd hyn i drafod materion trosglwyddo ac roeddynt yn aml yn anffurfiol iawn. Mewn ambell achos roeddynt yn gyfarfodydd lled gymdeithasol, a oedd yn galluogi i'r athrawon feithrin perthynas â'i gilydd yn effeithiol a oedd o gymorth gyda gweithredu'r clwstwr.

Tabl 7.8: Effaith ITM ar gyfarfodydd clwstwr

	Cadarnhaol%	Negyddol %	Niwtral %
Staff	82	5	14

7.41 Ble roedd y prosiect yn gweithio trwy glystyrau llawn neu bron yn llawn, roedd y cyfle ar gyfer cynllunio a datblygu'r cwricwlwm, llwybrau dilyniant a phrosesau olrhain wedi eu cryfhau'n fawr. Ble roedd clystyrau anghyflawn, neu bod disgyblion yn symud y tu allan i'r clwstwr i barhau â'u haddysg, y pryder oedd y byddai raid iddynt ailadrodd y gwaith roeddynt wedi ei wneud. Roedd tystiolaeth mewn o leiaf un clwstwr fod disgyblion yn symud y tu allan i'r clwstwr yn cael eu beirniadu am eu hynganu.

7.42 Roedd tystiolaeth fod y ffordd roedd y clwstwr yn ymwnued â'r prosiect arbrofol wedi ei chynllunio a'i sefydlu yn cael effaith arwyddocaol ar effeithiolrwydd y clwstwr. Po fwyaf agored a chynhwysol y broses ddatblygu, yn enwedig ble roedd yn cynnwys athrawon dosbarth yn ogystal â phenaethiaid, po fwyaf tebyg oedd hi y gweithredai'r clwstwr yn dda. Roedd clystyrau a alluogai i staff ysgolion cynradd ac uwchradd gyfrannu ar delerau cyfartal â'i gilydd hwythau'n fwy tebyg o fod yn effeithiol wrth ddatblygu staff (gweler canfyddiadau prosiect arbrofol yr Alban 13). Ble roedd proses o'r 'pen i lawr' o waith gan yr ysgol uwchradd yn cael ei 'werthu' i'r ysgolion cynradd fel pecyn, roedd staff yr ysgolion yn aml wedi gorfod buddsoddi symiau sylweddol a amser ac egni yn adeiladu ymddiriedaeth ac yn ffurfio partneriaethau effeithiol.

Prosesau i hwyluso ac olrhain trosglwyddo mewn ITM i Gyfnod Allweddol 3 a thu draw a faint o lwyddiant y'u bernir

7.43 Gofynnwyd i staff ysgolion uwchradd a oedd camau wedi eu cymryd i adeiladu ar y gwaith ITM CA2. Yn ystod can cyntaf y gwaith cloriannu dywedodd 63% o'r ysgolion nad oedd ganddynt ddim systemau olrhain ffurfiol yn eu lle. I'r gwrthwyneb, erbyn yr ail gam, dywedodd 47% o

benaethiaid a 65% o athrawon pwnc fod rhai camau wedi eu cymryd i olrhain cynnydd disgyblion. O blith y rhai a ddywedodd eu bod wedi cymryd camau, roedd eu hanner yn sôn am newid cynlluniau gwaith. Crybwyllwyd cyflwyno dulliau olrhain gan 13% a chrybwyllodd 19% ddefnyddio asesiadau ar sail portffolios neu lyfrau gwaith er mwyn strwythuro dilyniant.

Tabl 7.9: Trosglwyddo o CA3 erbyn 2006 - % ymatebion

	Do		Naddo		Ddim y gwybod	
	Penn-aeth	Athro	Penn-aeth	Athro	Penn-aeth	Athro
Camau wedi eu cymryd i adeiladu ar waith CA2	47	65	24	18	29	16

7.44 Fel a nodir uchod, ble bynnag roedd prosesau olrhain yn eu lle, nodwyd effaith er lles gan y prosiect, ond nid oedd mwyafrif yr ysgolion ddim ond yn gallu adrodd ar arsylwadau a gwelliannau ansoddol ar ymwneud y dosbarth. Bydd y garfan lawn gyntaf o ddisgyblion yn cychwyn ar flwyddyn 9 yn 2006 ac yna'n gwneud eu dewisiadau TGAU. Bydd yn bwysig monitro pa effaith, os o gwbl, y bydd y prosiect wedi ei gael ar y pwynt hwnnw.

7.45 Ble roedd staff yr ysgolion yn sôn am ddiffyg prosesau olrhain neu gynllun dilyniant roeddynt yn cyfeirio fynychaf at broblemau gyda chlystyrau anghyflawn. Ble roedd y prosiect arbrofol yn cael ei redeg gan glwstwr llawn, mae monitro'r effaith tymor hir yn uniongyrchol. Roedd yna, fodd bynnag, rai enghreifftiau o ysgolion uwchradd yn ceiso olrhain disgyblion a oedd ynglŷn â'r prosiect arbrofol ble maent yn cynrychioli cyfran gymharol fechan o'r rhai sy'n dod i mewn. Roedd un ysgol, er enghraifft, wedi sefydlu system côd lliw i adnabod disgyblion y prosiect arbrofol.

Tabl 7.10: Systemau olrhain ITM mewn ysgolion

	Rhoi mewn setiau cyn Uwchradd %	Eisiau system %	System yn ei lle dim adborth %	Cynllunio i gael un %	System anffurfiol yn ei lle %	Heb grybwyll unrhyw system olrhain %
Staff	**15**	**6**	**6**	**2**	**8**	**63**

7.46 Gofynnwyd i staff nodi beth roeddynt yn ei weld yn ofynion sylfaenol ar gyfer olrhain effaith y prosiect. Nododd 15% ohonynt yr angen am gael system olrhain gadarn yn ei lle. Fodd bynnag, ni soniodd y rhan fwyaf o ysgolion am unrhyw ofynion ar gyfer olrhain dilyniant, efallai oherwydd y ffaith nad oedd y pwnc yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol, neu oherwydd bod yr athro uwchradd yn addysgu ITM ac felly'n rheoli'r lefel ddilyniant yn barod.

8. Asesu'r gwersi yn sgil datblygiadau yn yr Alban, Lloegr ac Iwerddon

8.1 Yn sgil methiant prosiect Ffrangeg Cynradd Nuffield yn Lloegr (1964-1974) (gweler Burstall, et al, 1974) a phrosiect tebyg yn yr Alban (HMI, 1969), i bob diben fe gaed wared ar gynlluniau i gyflwyno addysgu Ieithoedd Tramor Modern yn eang yng nhgyfnod allweddol 2 yn y Deyrnas Unedig. Ddiwedd y 1980au, gyda mwy o integreiddio Ewropeaidd, daeth diddordeb o'r newydd mewn addysgu ITM a chyflwynodd yr Alban brosiect arbrofol Ieithoedd Modern mewn Ysgolion Cynradd yn 1989. Yng Nghymru a Lloegr, aildaniwyd y diddordeb gan *Ymchwiliad Ieithoedd Nuffield* a ddadleuai, oni bai fod y Deyrnas Unedig yn dod yn well am ddysgu ieithoedd, y byddai safle cystadleuol y Deyrnas Unedig yn y byd yn dirywio (Sefydliad Nuffield, 2000).

8.2 Yn sgil y diddordeb o'r newydd mewn addysgu ITM fe ailaseswyd prosiect Ffrangeg Cynradd Nuffield ac, yn benodol, y rhesymau dros ei fethiant. Er enghraifft, mae'r Adran Adysg a Sgiliau (DfES) yn dadlau iddynt "ddysgu yn sgil methiannau'r gorffennol"[6] a'u bod bellach yn gweithio'n drefnus i osod y sylfeini yn gyntaf (h.y. "adeiladu seilwaith, gallu athrawon ac arferion gorau").

8.3 Datblygiadau yn yr Alban

8.3.1 Cafodd y prosiect arbrofol MLPS (Ieithoedd Modern mewn Ysgolion Cynradd) ei gynnal rhwng 1989 a 1995. Fe'i cyflwynwyd yn wreiddiol ym mlwyddyn 7 (P7 sef Cynradd 7: 11 + oed) mewn dau gam, gyda 6 phrosiect yn 1989 a 6 yn 1990. Fodd bynnag, oherwydd fod cynifer o ddosbarthiadau cymysg mewn ysgolion cynradd, golygai hyn o'r cychwyn cyntaf fod disgyblion mor ifanc ag 8 yn cael profiad o ddysgu ITM. Mewn ymateb, yn 1991, fe gyflwynwyd ITM ar lefelau P4 a P5 fel prosiect arbrofol unigol.

8.3.2 Yn 1993 cyhoeddwyd bod y ddarpariaeth iaith dramor i gael ei hymestyn i bob ysgol gynradd (y cam "cyffredinoli"). Yn y prosiect arbrofol, roedd yr addysgu wedi'i gyflwyno'n bennaf gan athrawon yn ymweld; adeg cyffredinoli, athrawon cynradd oedd yn gyfrifol am y dasg. I baratoi, derbyniodd yr athrawon hyfforddiant mewn swydd, sef cyfanswm o 27 diwrnod dros bedwar tymor (Martin, 2000; Johnstone et al, 2000).

8.3.3 Yn sgil y penderfyniad i ehangu ITM ymhellach mewn addysg gynradd, bu dadlau brwd ganol y 1990au am y gefnogaeth angenrheidiol i alluogi athrawon ysgolion cynradd i'w dysgu'n effeithiol. I ychwanegu at hyn daeth adroddiad beirniadol gan AEM (a drafodir isod) a awgrymai mai prin oedd y dystiolaeth gadarn ynghylch yr hyn y gallai'r disgyblion ei wneud mewn gwirionedd gyda'r iaith a ddysgwyd (Johnstone, et al, 2000). Yn dilyn astudiaethau pellach fe argymhellodd y Grŵp Gweithredu Gweinidogol dros Ieithoedd (AGL), y dylai fod "hawl" i gael o leiaf 6 blynedd o astudio ITM, yn eu hadroddiad *Citizens of a Multilingual World* (Grŵp Gweithredu Gweinidogol, 2000). Roedd prif ergyd eu hargymhelliad yn cytuno â chasgliadau ymchwiliad Nuffield ac fe'i cymeradwywyd yn fras gan Weithrediaeth yr

[6] Gwefan y DfES http://www.dfes.gov.uk/languages/DSP_faqs.cfm [Ar 16 Awst 2004]

Alban (Gweithrediaeth yr Alban, 2001). Ers hynny bu cynnydd sylweddol mewn ITM mewn addysg gynradd ac mae gan bob disgybl yr hawl i ddysgu iaith fodern Ewropeaidd – Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg neu Sbaeneg – o P6 i S4.

8.3.4 Canlyniadau gwaith cloriannu

Roedd gwaith cloriannu annibynnol ar Brosiect Arbrofol yr Alban (Low, et al, 1993) yn datgan:

> Roedd tystiolaeth fod gan ddisgyblion prosiect fantais o ran ynganiad a goslef, y gallu i gychwyn sgwrs ac i ymateb mewn sgwrs, ac o ran defnydd helaethach o ymadroddion a brawddegau yn hytrach na geiriau unigol. Doedd dim tystiolaeth o gynnydd o ran cywirdeb gramadegol. Roedd tystiolaeth bod y tair lefel o allu yn y sampl disgyblion ar eu hennill, ond roedd yn fwy nodedig ymhlith y rhai o allu canolig ac is (ibid, p. 6).

Fe ddaethant i'r casgliad fod:

> Pawb a fu'n gysylltiedig â'r prosiectau arbrofol yn yr Alban o'r farn eu bod yn gofyn llawer ganddynt ond bod y datblygiad yn werth yr ymdrech…. Roedd yr ymchwil yn dangos fod y ddau fodel staffio yn y prosiectau arbrofol cenedlaethol, un ohonynt heb gynnwys athrawon uwchradd yn uniongyrchol, yn effeithiol. Ymrwymiad yr athrawon a'r tiwtoriaid oedd ynglyn â'r cynllun, ac ansawdd y gefnogaeth a gawsant, oedd y ffactorau allweddol yn llwyddiant y cynllun. (ibid., t. 10).

8.3.5 Cafodd y gwaith cloriannu ac adroddiad pellach 1997 (Low a Johnstone, 1997) eu herio gan adroddiad beirniadol gan AEM yn 1998, a ddadleuai fod y drafodaeth hyd at hynny wedi canolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag ar ganlyniadau. Yn benodol, awgrymai mai prin oedd y dystiolaeth gadarn ynghylch yr hyn y gallai'r disgyblion ei wneud yn ymarferol gyda'r iaith a ddysgwyd (Johnstone, et al, 2000). Mewn ymateb i'r problemau a nodwyd gan adroddiad AEM, sefydlwyd grwp Gweithredu dros ieithoedd ac fe gomisiynodd y SOEID 'Asesiad Cyrhaeddiad Dechreuol' mewn ITM yn 2001 (SEED, 2001). Canolbwyntiai'r gwaith cloriannu ar roi profion i sampl o ddisgyblion (Johnstone, et al, 2000) a daethpwyd i'r casgliad, yn amodol ar gyfyngiadau'r astudiaeth, yn fwyaf arbennig maint bychan y sampl a'r ffaith mai croestoriad a gafwyd yn hytrach na thoriad hydredol:

> Roedd arwyddion petrus o gynnydd yn natblygiad eu [disgyblion] hieithoedd tramor o P7 i S2, fel y cofnodwyd yn y datganiadau cyrhaeddiad ar gyfer y sgiliau hynny (yn enwedig Gwrando a Siarad) a oedd yn rhan o'r asesiadau ar gyfer P7 a S2 ac sy'n dangos bod disgyblion S2 wedi gallu gweithio gyda iaith fwy cymhleth na disgyblion P7. (ibid.)

8.3.6 Mae prosiect arbrofol yr Alban wedi amlygu sawl her posibl, gan gynnwys:

- Problem hirsefydlog trosglwyddo. Er enghraifft, roedd rhai athrawon ITM uwchradd yn mynd ati'n fwriadol i ddechrau eto, tra oedd eraill yn gyndyn o

newid eu dull addysgu[7]. Roedd y problemau hyn yn fwy dyrys oherwydd fod y cwricwlwm yn fwy anhyblyg ar lefel uwchradd[8] ac yn canolbwyntio ar 'addysgu pwnc' yn hytrach na 'sefydlu' (Martin, 2000).[9] Yn yr un modd roedd diffyg cwricwlwm cytun yn golygu, "fod eithaf tipyn o ansicrwydd ar draws ysgolion o ran yr hyn yr oedd hi'n rhesymol disgwyl i ddisgyblion ei gyflawni a sut i asesu'r cyraeddiadau hynny." Yn ei dro roedd yr ansicrwydd hwn yn arwain at broblemau wrth gloriannu, gydag athrawon yn holi "'Beth fydd yn cael ei asesu: y disgyblion ynteu'r athrawon?'" (Johnstone, et al, 2000, t. 3 ym mhennod1); ac

- Roedd ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n anodd "datblygu addysgu gwahaniaethol" (ar gyfer sgiliau ar wahanol lefelau), yn enwedig wrth ymdrin â disgyblion o ysgolion prosiect a'r rhai lle na fu prosiect. Ymhlith yr atebion roedd pecynnau "dal I fyny" ar gyfer y disgyblion (a ddosbarthwyd yn ystod gwyliau'r ysgol); dosbarthiadau ar wahân a/neu gefnogaeth ychwanegol ar gyfer dechreuwyr a defnydd mwy creadigol o lyfrau cwrs[10] (Martin, 2000, tt. 42-43).

8.3.7 Er hynny, ac yn wahanol I brosiectau arbrofol siomedig yn y 1960au, bu'r prosiect yn llwyddiannus yn yr Alban. Daeth llawer o'r llwyddiant hwn o ganlyniad I'r pwyslais ar sefydlu "seilwaith cefnogaeth" o'r cychwyn cyntaf yn yr Alban (ibid, t. 62). Mae'r gefnogaeth hon wedi cynnwys:

- Pwyllgor cenedlaethol ar gyfer y prosiectau yn gyffredinol;
- Cefnogaeth a chyngor gan AEM;
- 'Swyddogion Datblygu Cenedlaethol';
- 'Ymgynghorwyr rhanbarthol' a phwyllgorau llywio a fu'n cefnogi pob agwedd ar ddatblygu, gan gynnwys y cwricwlwm, staffio, adnoddau, rheoli, addysgeg, a gwaith cloriannu;
- Sefydlu clystyrau (a ystyrir yn "sylfaen datblygiad ITM yn ysgolion cynradd yr Alban");
- Addysgu iaith arbenigol, yn bennaf trwy athrawon o ysgolion uwchradd y prosiect arbrofol yn ymweld ag ysgolion cynradd er mwyn gweithio gydag athrawon dosbarth ysgolion cynradd, a Hyfforddiant iaith ar gyfer athrawon dosbarth ysgolion cynradd;
- Canllawiau a Chylchlythyrau (ibid.; Parsons, et al, N.D.).

8.4 Datblygiadau yn Lloegr

8.4.1 Yn Lloegr gosodwyd y "sylfeini" cyntaf gan Fenter *The Early Language Learning* (ELL) a gyd-drefnwyd gan CILT, gan weithio gyda chyrff fel QCA ar ran y DfES. Tri phrif amcan y prosiect arbrofol hwn oedd:

[7] Mae'n bosib mai'r rheswm yw nad oeddynt yn ystyried gwersi cynradd yn ddysgu "go-iawn" (Martin, 2000, t. 39 gan ddyfynnu Low, et al, 1995).
[8] Cafodd rhywfaint o hyn ei gynllunio cyn i brosiect arbrofol MLPA ddechrau (Martin, 2000, t. 39).
[9] http://www.scre.ac.uk/rie/nl54/nl54johnstone.html, [Ar 16 Awst 2004]
[10] E.e; Newid i lyfr cwrs newydd yn yr ysgol uwchradd; Dechrau llyfrau cwrs uwchradd ar uned ddiweddarach; Dechrau'r llyfr cwrs ar y dechrau ond ehangu ac ailgylchu iaith; Defnyddio'r llyfr cwrs yn fwy dethol.

- "darparu cyngor a chefnogaeth i sefydliadau oedd yn cymryd rhan mewn dysgu iaith yn gynnar, neu'n ystyried gwneud hynny;
- cynnig mwy o gefnogaeth a chydlyniad i fentrau oedd eisoes yn bodoli;
- sefydlu sail dros ddatblygiadau yn y dyfodol." (CILT, N.D.a, t. 3).

8.4.2 Roedd cam 1 yn mynd o fis Ebrill 1999 hyd at fis Mawrth 2001 ac mae'n ymddangos iddo fod yn llwyddiannus (CILT, N.D.a). Cafodd y gwaith o gloriannu cam 2 ei gyhoeddi yn 2005.

8.4.3 Yn 2002 cyhoeddwyd Strategaeth Ieithoedd Lloegr a oedd yn cynnwys ymrwymiad y byddai pob plentyn yn cael y cyfle i astudio iaith dramor yng nghyfnod allweddol 2 erbyn 2010. Ym mis Hydref 2005 lansiwyd Fframwaith ar gyfer Ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 2. Datblygwyd canllawiau anstatudol ar gyfer ITM Cyfnod Allweddol 2 ac mae'r OCA wedi datblygu cynlluniau gwaith Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

8.4.4 Roedd prosiectau *Development of Early Language Learning* (DELL) yn archwilio ITM yn yr ysgolion cynradd yng ngham 2 menter ELL. Fe arweiniodd canlyniadau'r prosiect hwn at gyhoeddi Canllaw Arferion Gorau NACELL .[11]

8.4.5 Yn ogystal â phrosiectau DELL, fe ddewiswyd ysgolion mewn 19 AALl i gymryd rhan yn y *Primary Pathfinders Project*. Roedd y prosiect yn debyg mewn rhai ffyrdd i'r datblygiadau a gafwyd yng Nghymru, gyda chymysgedd o athrawon a Chynorthwywyr Ieithoedd Tramor o ysgolion uwchradd ac athrawon dosbarth heb arbenigedd yn cyflawni'r gwaith. Er bod gwahaniaethau a allai fod yn arwyddocaol gyda rhai ysgolion yn dechrau cyflwyno darpariaeth ym mlwyddyn 3 a mwy o ffocws ar hyfforddiant ac ar alluogi athrawon ysgolion cynradd i fynd yn gyfrifol am ddarpariaeth ITM.

8.4.6 Bwriad y prosiect arbrofol oedd: "datblygu strategaethau a fyddai yn":

- "cyflwyno dysgu iaith i ddisgyblion rhwng saith ac un ar ddeg oed";
- "rhannu arferion da o fewn i'w AALl a'r tu allan";
- "rhannu adnoddau megis staff profiadol ac offer arbenigol";
- "meithrin datblygu proffesiynol"; a
- "datblygu partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol."[12]

8.4.7 Cynhaliwyd y *Primary Pathfinders Project* rhwng 2003-2005 a chafodd ei gloriannu gan Brifysgol Warwick er mwyn cyfrannu gwybodaeth at benderfyniadau ynghylch sut dylid addysgu ITM mewn ysgolion cynradd. [13]

[11] http://www.nacell.org.uk/bestpractice/index.htm [Ym mis Tachwedd 2006]
[12] http://www.nacell.org.uk/home/whats_new.htm [Ym mis Tachwedd 2006]; gweler hefyd http://www.nacell.org.uk/happening/pathfinder/index.htm [Ym mis Tachwedd 2006]
[13] http://www.dfes.gov.uk/languages/whatson_primary_ks2.cfm [Ar 11 Awst 2004]

8.4.8 Canlyniadau'r Gwaith Cloriannu

Fel y nodwyd, roedd y gwaith cloriannu ar gam 1 y prosiect yn gadarnhaol. Er enghraifft, mewn perthynas ag amcan 3: "sefydlu sail dros ddatblygiadau yn y dyfodol", casgliad y gwaith cloriannu oedd:

- Roedd rhieni, athrawon a dysgwyr i gyd yn frwdfrydig;
- Mae tystiolaeth ei fod yn effeithiol (e.e. "Mae arwyddion o ddilyniant ieithyddol sy'n gwneud defnydd o frwdfrydedd a galluoedd dysgwyr ifanc"); a
- Cafodd rhai rhwystrau posib (e.e. trosglwyddo cynradd-uwchradd) eu goresgyn yn llwyddiannus (e.e. trwy'r Portffolio Ieithoedd Ewropeaidd).

Serch hynny, roedd y gwaith cloriannu ar gam 1 yn awgrymu bod angen ymdrin â nifer o broblemau o hyd. Yn eu plith mae:

- Cyfyngiadau amser;
- Diffyg cwricwlwm cytun, a oedd yn cymhlethu trosglwyddo a hyfforddiant, ac mewn rhai achosion a achosodd ddiffyg ffocws;
- Prinder athrawon wedi'u hyfforddi (CILT, N.D.a, t. 6).

Roedd y gwaith cloriannu ar gam 2 (Mujis, et al, 2005) hefyd yn gadarnhaol gyda'u casgliadau yn gyffredinol yn adlewyrchu ein rhai ninnau, er enghraifft maent yn casglu bod:

- "Ieithoedd yn cael croeso brwd yn gyffredinol gan ddisgyblion, rhieni ac athrawon ac roedd cred eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ehangach disgyblion."
- "Roedd 'clystyrau' cydweithrediadol o ysgolion yn….fuddiol iawn [o ran rhoi gallu i athrawon dosbarth]"
- "Roedd hyfforddiant i staff cynradd ac uwchradd yn hollbwysig os oedd ieithoedd cynradd i lwyddo."
- "Roedd rhai *Pathfinders* wedi dyfeisio cynlluniau gwaith gyda gweithgareddau a deunyddiau gwahaniaethol a oedd yn gynyddol anoddach er mwyn sicrhau cynnydd o fewn pob blwyddyn a thrwy'r blynyddoedd." Serch hynny, "Mewn rhai achosion roedd hi'n anodd cael cynnydd, er enghraifft, pan oedd plant yn dysgu'r un pethau mewn blynyddoedd gwahanol heb fod yna strategaeth gyfan ar gyfer cynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Roedd y broblem hon yn codi o ganlyniad i staff yn symud rhwng grwpiau o wahanol flynyddoedd ac am fod arbenigedd staff yn gyfyngedig."
- "Yn gyffredinol nid oedd asesu wedi ei ddatblygu'n llawn mewn nifer o *Pathfinders* …. Defnyddiwyd amrywiaeth o strategaethau asesu ar draws ysgolion yr astudiaethau achos a olygai monitro anffurfiol yn bennaf."
- "Roedd patrymau cynradd-uwchradd o drosglwyddo yn gymhleth yn y mwyafrif o awdurdodau lleol *Pathfinder*. Golygai hyn bod sicrhau parhad a chynnydd yn sialens wirioneddol lle roedd ysgolion uwchradd yn cael disgyblion o amrywiaeth fawr o ysgolion cyflenwi." (ibid.)

Serch hynny, roedd yna rai gwahaniaethau arwyddocaol. Er enghraifft, canfyddwyd, fel yng Nghymru, "Lle cafwyd cyswllt rhwng sectorau, yn enwedig gwylio'r naill a'r llall, roedd hyn yn fuddiol o ran annog athrawon i werthuso eu harfer eu hunain." Ond, yn wahanol i Gymru, "Mewn llawer o ysgolion ni chafwyd cyfarfodydd rhwng staff cynradd ac uwchradd." Golygai hyn yn ei dro mai "Ychydig o wybodaeth a geir ymhlith llawer o athrawon cynradd ynghylch sut y bydd y gwaith cynradd yn cael ei gario ymlaen yn yr ysgol uwchradd, os o gwbl, ac y mae rhai athrawon yn teimlo'n ddigalon ac yn rhwystredig am y gallai arfer da mewn ieithoedd yn yr ysgol gynradd beidio â chael ei gydnabod na bod yn sail i adeiladu arno yn yr ysgol uwchradd." (ibid.)

8.5 Datblygiadau yn Iwerddon

8.5.1 Lansiwyd Prosiect Arbrofol Cenedlaethol ar gyfer treialu Ieithoedd Modern yn Ysgolion Cynradd Iwerddon yn 1998. Fel yng Nghymru, mae system addysg Iwerddon eisoes yn ddwyieithog ac mae yma botensial felly am gymhariaeth ddiddorol. Gwaetha'r modd, yn y deunydd sydd wedi ei gyhoeddi, ychydig o ddadansoddi a geir ar effaith dwyieithrwydd ar addysgu a dysgu ITM.

8.5.2 Ar hyn o bryd addysgir Gwyddeleg a Saesneg yn ysgolion cynradd y wladwriaeth. Fel arfer nid oes dim darpariaeth ITM tan yr ysgol uwchradd.[14]

8.5.3 Canlyniadau'r Cloriannu

Roedd y gwaith cloriannu ar y prosiect yn gadarnhaol iawn gyda'r casgliad:

- Fod mwyafrif mawr y disgyblion wedi gwneud cynnydd o ran sgiliau cyfathrebu gwrando a siarad.
- Fod mwyafrif mawr y disgyblion wedi magu agweddau cadarnhaol at yr iaith a'r diwylliant fel ei gilydd;
- Fod mwyafrif mawr yr athrawon yn teimlo eu bod hwy, eu disgyblion a'u hysgol ar eu hennill o'i herwydd;
- Fod y rhan fwyaf o athrawon yn cytuno i amcanion y prosiect gael eu cyfarfod.
- Os yw ITM i gael eu hymestyn, bod gofyn cael ymrwymiad cenedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r cyflenwad o athrawon ac i sicrhau cydlynu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. (Harris, N.D.).

[14] http://www.uni-koeln.de/phil-fak/aspla/tnp2/doc/ireland.rtf [Edrychwyd arno 11 Awst 2004]

Crynodeb o wersi posibl i Gymru yn sgil profiadau'r Alban, Lloegr ac Iwerddon

Cwestiwn	Yr Alban	Lloegr	Iwerddon
A yw cyflwyno ITM yn ategu'r cwricwlwm statudol ac yn ddatblygiad gwerth chweil arno	Athrawon a disgyblion o blaid. Mae pryderon (e.e. cadarnhau hegemoni Ffrangeg).	Athrawon, disgyblion a rhieni oll o blaid	Athrawon o blaid.
Cymharu a chyferbynnu gwahanol ddulliau addysgu a ddefnyddir yn ysgolion y prosiect arbrofol	Mae arbenigedd yn bwysig, ac felly materion yn gysylltiedig â hyfforddiant	Mae arbenigedd yn bwysig, ac felly materion yn gysylltiedig â hyfforddiant	Mae arbenigedd yn bwysig, ac felly materion yn gysylltiedig â hyfforddiant.
Rhyngweithio rhwng y ddarpariaeth ITM a diwylliant ac ethos yr ysgolion.	Mae'r model Clwstwr yn bwysig, ond yn dibynnu ar bartneriaethau. Angen ei "sefydlu" yn y cwricwlwm.	Pwyslais ar "sefydlu" yn y cwricwlwm.	Ddim yn gwybod.
A fydd cymryd rhan mewn dysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cael effaith ddilynol ar ddysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 3	Disgyblion wedi gwneud cynnydd yn yr iaith darged. Nifer sy'n astudio yng Nghyfnod Allweddol 3 yn yr Alban wedi cynyddu.	Disgyblion wedi gwneud cynnydd yn yr iaith darged.	Disgyblion wedi gwneud cynnydd yn yr iaith darged.
A yw cyflwyno dysgu ITM trwy'r prosiectau arbrofol wedi cael unrhyw effeithiau andwyol neu wedi creu pwysau ychwanegol yn yr ysgolion?	Angen cael seilwaith o gefnogaeth yn ei le yn gyntaf. Prinder athrawon wedi eu hyfforddi.	Angen cael seilwaith o gefnogaeth yn ei le yn gyntaf. Pwysau amser	Ddim yn gwybod
Pa brosesau sydd yna i hwyluso ac olrhain disgyblion yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3 a thu hwnt a pha mor llwyddiannus yw'r rhain?	Diffyg cwricwlwm cytunedig, trosglwyddo'n gymhleth. Rhai athrawon wedi dechrau eto, eraill yn gyndyn o newid dulliau addysgu.	Diffyg cwricwlwm cytunedig, trosglwyddo a hyfforddiant yn gymhleth.	Angen strwythurau/ prosesau unedig i hwyluso trosglwyddo.

9. Casgliadau

9.1 Barnwyd bod prosiect arbrofol ITM yn llwyddiant gan staff ysgolion, disgyblion a rhieni yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y gwaith cloriannu hwn. Dywedir bod gwerth addysgu iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cynnwys:-

- Brwdfrydedd a chyffro disgyblion wrth ddysgu pwnc newydd;
- Diffyg hunanymwybyddiaeth disgyblion ysgolion cynradd wrth gymryd rhan yn y dosbarth;
- Canfyddiad po ieuengaf yw'r plentyn, hawsaf yw dysgu iaith newydd; a
- Buddion ehangach y prosiect, megis cynorthwyo i gryfhau a datblygu clystyrau o ysgolion a bod yn gefn i drosglwyddo.

9.2 Canfyddwyd yn y gwaith cloriannu agwedd gadarnhaol iawn tuag at ITM gan rieni a disgyblion fel ei gilydd. Gyda'r disgyblion, serch hynny, nid oedd hyn bob tro yn golygu ymrwymiad at barhau â ITM cyn belled â Chyfnod Allweddol 4. Mae astudiaethau Estyn yn awgrymu bod y dewis yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael ei ddylanwadu gan nifer o wahanol ffactorau nad oes a wnelont â mwynhau dysgu ieithoedd. Er bod disgyblion yn dweud bron bob tro eu bod yn mwynhau gwersi ITM yr oeddynt yn dal i dueddu i ystyried y byddai TGAU ITM yn anodd. Fe fydd yn ddiddorol gweld beth fydd yn digwydd pan fydd y fintai bresennol o ddysgwyr ITM yn cyrraedd Cyfnod Allweddol 4.

9.3 Nodweddion llwyddiannus darpariaeth ITM oedd:

- Athrawon yn credu yn eu gallu i addysgu ITM a chanddynt ddiddordeb a brwdfrydedd yn y prosiect ac mewn ieithoedd. Athrawon arbenigol o ysgolion uwchradd oedd y rhain yn fynych, ond cafwyd enghreifftiau hefyd o athrawon cynradd oedd yn cyflawni'r swyddogaeth hon.
- Athrawon cynradd yn cymryd rhan yn y gwersi, ac felly'n ychwanegu at y cyfleoedd i atgyfnerthu dysgu rhwng gwersi a rhannu syniadau a phrofiadau o addysgu yng nghyd-destunau cynradd ac uwchradd.
- Clwstwr cryf a chyflawn gyda chysylltiadau da rhwng athrawon cynradd ac uwchradd a chynlluniau gwaith. Byddai hyn yn aml yn cael ei gyflawni drwy gyfraniad athrawon arbenigol o ysgol uwchradd neu athrawon peripatetig wedi eu cefnogi ganddynt, ond fe gafwyd hefyd rai enghreifftiau lle roedd athrawon dosbarth cynradd yn arwain yr addysgu ac yn gweithio yn agos gyda'u cydweithwyr uwchradd i rannu syniadau a chefnogaeth ac i alluogi disgyblion i ddod yn eu blaen.
- Cysylltiadau clwstwr cryf a chydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a oedd yn creu'r potensial i adeiladu ar sail y gwaith a wnaed yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 fel bod y fantais addysgol yn cael ei chynnal. Roedd hyn yn cael ei gyflawni orau mewn clwstwr llawn lle y gellid ailysgrifennu cynlluniau gwaith cyfan er mwyn manteisio ar y gwaith a wnaed eisoes yn yr ysgol gynradd.
- Y ffocws ar wrando a siarad a oedd yn sicrhau bod y gwersi yn teimlo'n wahanol i'r gwersi arferol ac yn fwynhad. Yr oedd y ffocws

hwn hefyd yn golygu bod grwpiau o alluoedd cymysg, gan gynnwys rhai ag anghenion arbennig, yn gallu elwa o'r ddarpariaeth.

9.4 Mae tystiolaeth eglur yng Nghymru am gaffael ail iaith yn llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ble mae disgyblion gyda'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt wedi dysgu'r iaith ddigon i allu cael eu haddysgu yn Gymraeg. Roedd tuedd yn yr athrawon a'r rhieni yn yr ysgolion hyn i fod y rhai mwyaf brwd ynghylch dysgu ITM ac am fanteision dwyieithrwydd gyda chaffael trydedd neu bedwaredd iaith.

9.5 Roedd yr ymateb cyffredinol a gafwyd gan ddisgyblion, rhieni ac athrawon yn drawiadol o gadarnhaol. Serch hynny, yn ein barn ni, am fod ysgolion wedi dewis cymryd rhan yn y prosiect arbrofol, ni allwn gymryd arnom y byddai holl ysgolion Cymru yn rhannu'r ymateb cadarnhaol yma.

9.6 Y mae'r casgliadau hyn hefyd yn adlewyrchu yn fras gasgliadau cadarnhaol gwaith cloriannu *pathfinders* ITM yn Lloegr a datblygiadau yn yr Alban.

Llyfryddiaeth

Burstall, C., Jamieson, M., Cohen, S., & Hargreaves, M. (1974) *Primary French in the balance.* Slough: NFER

Estyn (2002). *Aiming for Excellence in Modern Foreign languages.* Arweiniad Estyn i Ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol. Caerdydd: Estyn, hefyd ar gael ar-lein yn: http://www.estyn.gov.uk/publications/AimingforExcellenceMFLE.pdf

Estyn (2004). *Modern Foreign Languages in Welsh-Medium Schools.* Arweiniad Estyn i Ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol. Caerdydd: Estyn, hefyd ar gael ar-lein yn: http://www.estyn.gov.uk/publications/Modern_Foreign_languages.pdf

Harris, j. (heb ei ddyddio). 'Modern Languages in Irish Primary Schools: An Evaluation of the National Pilot Project.' Ysgrif heb ei chyhoeddi, ar gael ar-lein yn: http://www.ite.ie/sicth2.htm

HM Inspectors of Schools. (1998). Standards and Quality. Primary and Secondary Schools. 1994-98: in Modern Languages. Caeredin: HMSO for the Scottish Office

Johnstone R *et al* (1999) *Pilot AAP in French and German 1998. Report to the Scottish Office Education and Industry Department*. Stirling: Scottish CILT

Johnstone, R., J., Cavani, L., Low, J., McPake (2000). 'Assessing Modern Languages Achievement: a Scottish Pilot Study of Late Primary and Early Secondary Pupils'. CILT Research Forum, Rhagfyr 2000. Ar gael ar-lein yn: http://www.cilt.org.uk/research/aap.htm

Low, L., J. Duffield, S. Brown, R. Johnstone & A. Bankowska. 1993. M*odern Foreign Languages in Primary Schools: the National Pilot Projects in Scotland*. Interchange No 19. Ar gael ar-lein yn: http://www.scotland.gov.uk/edru/Pdf/ers/interchange19.pdf

Martin, C. (2000). 'An Analysis of national and international research on the provision of modern foreign languages in primary schools', adroddiad heb ei gyhoeddi a baratowyd i Awdurdod y Cwricwlwm a Chymwysterau . Ar gael ar-lein yn: http://www.qca.org.uk/downloads/3809_cmartin_rpt_mfl_primaryschools.pdf

Ministerial Action Group on Languages (2000) *Citizens of a Multilingual World.* Caeredin: The Stationery Office.

Muijs, D., A. Barnes, M. Hunt, B. Powell, E. Arweck & G. Lindsay (2005). *Evaluation Of The Key Stage 2 Language Learning Pathfinders.* Adroddiad i'r Adran Addysg a Sgiliau. Ar gael ar-lein yn: http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR692.pdf

Nuffield Languages Inquiry (2000) *Languages: the Next Generation.* Llundain: Sefydliad Nuffield. Ar gael ar-lein yn:

http://www.nuffieldfoundation.org/languages/inquiry/in0000000555.asp

Parsons, R, C. Goodwin, & C. James (heb ei ddyddio). 'MLPSA in Scotland – A Study Visit by CILT Cymru'. Ysgrif heb ei chyhoeddi.

Scottish Executive Education Department (2001). 'Assessment of Achievement Programme Report of the First Survey of Modern Languages (French and German) 2001. Ar gael ar-lein yn: http://www.scotland.gov.uk/library5/education/fsml.pdf

Scottish Executive (2001) *Citizens of a Multilingual World. Scottish Executive Response.* Caeredin: The Stationery Office. Ar gael ar-lein yn: http://www.scotland.gov.uk/library3/education/cmlw.pdf

Scottish Executive (2005) *Citizens of a Multilingual World. Scottish Executive Response.* Caeredin: The Stationery Office.